# Pecyn Dogfennau

Mark James LLM, DPA, DCA
Prif Weithredwr,
*Chief Executive,*
Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP
*County Hall, Carmarthen. SA31 1JP*

**DYDD MAWRTH, 11EG GORFFENNAF, 2017**

**AT: HOLL AELODAU'R CYNGOR SIR**

YR WYF DRWY HYN YN EICH GALW I FYNYCHU CYFARFOD O'R **CYNGOR SIR** A GYNHELIR YN **Y SIAMBR, NEUADD Y SIR, CAERFYRDDIN** AM **10.00 A.M.** AR **DDYDD MERCHER, 19EG GORFFENNAF, 2017** ER MWYN CYFLAWNI'R MATERION A AMLINELLIR AR YR AGENDA SYDD YNGHLWM

*Mark James* DYB

**PRIF WEITHREDWR**

AILGYLCHWCH OS GWELWCH YN DDA

| | |
|---|---|
| **Swyddog Democrataidd:** | **Michelle Evans Thomas** |
| **Ffôn (llinell uniongyrchol):** | **(01267) 224470** |
| **E-bost:** | **MEEvansThomas@sirgar.gov.uk** |
| **Cyf:** | **AD016-001** |

# A G E N D A

1. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.**

3. **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD.**

4. **LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFODYDD Y CYNGOR A GYNHALIWYD AR Y DYDDIADAU CANLYNOL:-**

   **4 .1 26AIN EBRILL, 2017;** 7 - 12

   **4 .2 24AIN MAI, 2017.** 13 - 24

5. **CYFLWYNO DEISEB - PALMANT AR HEOL TYCROES**

   *"Rydym ni drigolion Tŷ-croes yn galw ar Gyngor Sir Caerfyrddin i ddarparu palmant ar Heol Tŷ-croes, o fynedfa Ystâd Fforest Fach i Gelli Lane. Mae cyllid Adran 106 o dros £40,000 eisoes wedi'i sicrhau a dylid defnyddio'r cyllid cyn unrhyw ddatblygiadau pellach ym Mharc Gwernen."*

6. **YSTYRIED Y RHYBUDD O GYNNIG CANLYNOL:-**

   RHYBUDD O GYNNIG A GYFLWYNWYD GAN Y CYNGHORYDD ROB JAMES:-

   *"Bod y Cyngor hwn:-*

   *(a) yn ailbwysleisio ei ymrwymiad i barciau a llecynnau glas Sir Gaerfyrddin;*

   *(b) yn credu, er gwaethaf cyfyngiadau ariannol, bod diogelu parciau a llecynnau glas lleol yn parhau i fod yn ddyletswydd hanfodol;*

   *(c) yn cydnabod pwysigrwydd parciau a llecynnau gwyrdd i iechyd a lles oedolion a phlant yn Sir Gaerfyrddin;*

   *(d) yn ffafrio datblygu tir llwyd, yn hytrach na defnyddio llecynnau glas, wrth ystyried adeiladu asedau newydd;*

   *(e) yn cefnogi trosglwyddo asedau cymunedol i gynghorau tref/cymuned/gwledig dim ond lle ceir cefnogaeth gref gan y gymuned leol a'r corff sy'n derbyn yr ased."*

## 7. CWESTIYNAU GAN AELODAU:-

### 7 .1 CWESTIWN GAN Y CYNGHORYDD ROB JAMES I'R CYNGHORYDD PETER HUGHES-GRIFFITHS, AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS DIWYLLIANT, CHWARAEON A THWRISTIAETH

“A allech chi nodi'r rhesymau pam y mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi penderfynu hysbysebu am fynegiannau o ddiddordeb ar gyfer trafodion eiddo, yn hytrach na phroses dendro agored gystadleuol i gaffael gwasanaethau ym Mharc Howard?"

### 7 .2 CWESTIWN GAN Y CYNGHORYDD JOHN JENKINS I'R CYNGHORYDD EMLYN DOLE, ARWEINYDD Y CYNGOR

"Gan fod gwrthwynebiad amlwg a helaeth gan y cyhoedd yn Llanelli i gynllun yr Awdurdod hwn i greu maes parcio y bydd modd cael mynediad iddo drwy fan mynediad cwbl anaddas ar Hen Heol yn lle'r cwrt tennis sy'n cael ei ddefnyddio'n aml ym Mharc Howard; heb ystyried y broses gynllunio ac ar wahân i hynny, a fyddai Arweinydd y Cyngor yn cydnabod bod yr elfen hon o gynllun mawr Parc Howard yn amhoblogaidd dros ben ac a fyddai'n fodlon dangos ei resymoldeb a'i barodrwydd i wrando ac i ymgysylltu â'r gymuned yn Llanelli drwy dynnu cais cynllunio rhif S/35541 yn ei ôl, a hynny dim ond er mwyn aros am ymgynghoriad cyhoeddus ystyrlon, ar wahân i'r broses gynllunio, ynghylch darparu llefydd parcio yng nghynllun mawr Parc Howard?"

### 7 .3 CWESTIWN GAN Y CYNGHORYDD EDWARD THOMAS I'R CYNGHORYDD HAZEL EVANS, AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS AMGYLCHEDD

“Llwybr Beicio Caerfyrddin i Landeilo - Tybed a fyddai modd ichi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni ynghylch y prosiect arbennig hwn, yn enwedig o ran pryd gallwn ddisgwyl gweld y gwaith yn dechrau ar ochr Llandeilo o'r llwybr beicio. Mae ochr Llandeilo yn fy nharo i fel rhan hawsaf y llwybr gan fod llai o landlordiaid i gynnal trafodaethau â nhw.”

### 7 .4 CWESTIWN GAN Y CYNGHORYDD ANDREW JAMES I'R CYNGHORYDD CEFIN CAMPBELL, AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS CYMUNEDAU A MATERION GWLEDIG

“Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn un o saith awdurdod lleol sy'n enwebu Cynghorwyr Sir etholedig i wasanaethu ar Fwrdd Rheoli Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Y rhai sy'n cynrychioli Sir Gaerfyrddin ar y bwrdd hwn yw'r

Cynghorydd Glynog Davies, Cwarter Bach a mi ar gyfer Ward Llangadog. Mae Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn dathlu ei ben-blwydd yn 60 oed yn 2017 ac ynghyd â'r ffaith fod 2017 yn cael ei hyrwyddo fel y Flwyddyn Chwedlau rhagwelir y bydd llawer o ymwelwyr yn heidio i'r ardal. Mae hyn yn briodol iawn o ystyried bod gan ward leol Llangadog gysylltiad agos â chwedl "morwyn y llyn". Y rhanddeiliaid ym mhartneriaeth yr ardal leol yw Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Awdurdod Dŵr Cymru a Chyngor Sir Caerfyrddin. Gan fod cyfraniad ariannol eisoes wedi'i wneud gan y ddau awdurdod cyntaf, gofynnaf yn ffurfiol felly a fydd Cyngor Sir Caerfyrddin hefyd yn cyfrannu'n ariannol at y gwariant sydd ei angen i ddatblygu'r seilwaith lleol yn yr ardal?"

**7 .5 CWESTIWN GAN Y CYNGHORYDD ANDREW JAMES I'R CYNGHORYDD HAZEL EVANS, AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS AMGYLCHEDD**

"Ddydd Gwener 24/03/17 bu i'r ganolfan ailgylchu yn Llangadog, y cyfeirid ati gan y gymuned leol fel 'All Waste Services', gau ei gatiau. Mae'r safle dan sylw yn addas i'r diben, wedi'i drwyddedu, ac yn meddu ar ganiatâd cynllunio llawn i gynnig gwasanaethau ailgylchu yng ngogledd-ddwyrain y sir. Bellach mae'r safle ar y farchnad gan y gwerthwyr eiddo lleol. Erbyn hyn mae trigolion Llangadog a'r cylch wedi gorfod gwneud y tro â chyfleusterau ailgylchu dros dro sylfaenol am bron 3 mis, felly fy nghwestiwn i'r Cyng. Evans yw - Pryd fydd y gwasanaethau ailgylchu arferol yn dychwelyd ac ym mhle fydd hynny'n digwydd?"

**8. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW).**

**9. APWYNTIADAU'R TIM RHEOLI CORFFORAETHOL.** 25 - 56

**10. YSTYRIED ARGYMHELLION Y BWRDD GWEITHREDOL O RAN Y MATER CANLYNOL:-**

**10 .1 PENODI SWYDDOG PRIODOL.** 57 - 62

**11. DERBYN ADRODDIADAU CYFARFODYDD Y BWRDD GWEITHREDOL A GYNHALIWYD AR Y DYDDIADAU CANLYNOL:-**

**11 .1 2AIL MAI, 2017;** 63 - 68

**11 .2 26AIN MEHEFIN, 2017.** 69 - 74

**12. COFNODION ER GWYBODAETH (AR GAEL AR Y WEFAN)**

**12 .1 PWYLLGOR CYNLLUNIO - 19EG EBRILL 2017;**

**12 .2 PWYLLGOR CRAFFU GOFAL CYMDEITHASOL & IECHYD - 20FED EBRILL 2017;**

**12 .3 PWYLLGOR CRAFFU DIOGELU'R CYHOEDD A'R AMGYLCHEDD - 21AIN EBRILL, 2017;**

**12 .4 PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG A PHLANT - 24AIN EBRILL, 2017;**

**12 .5 PWYLLGOR CRAFFU POLISI AC ADNODDAU - 28AIN EBRILL, 2017;**

**12 .6 PWYLLGOR SAFONAU - 1AF MEHEFIN, 2017;**

**12 .7 PWYLLGOR CYNLLUNIO - 1AF MEHEFIN, 2017;**

**12 .8 PWYLLGOR SAFONAU - 9FED MEHEFIN, 2017;**

**12 .9 PWYLLGOR CYNLLUNIO - 13EG MEHEFIN, 2017;**

**12 .10 PWYLLGOR CRAFFU AR Y CYD ADDYSG & PHLANT A GOFAL CYMDEITHASOL & IECHYD - 23AIN MEHEFIN, 2017;**

**12 .11 PWYLLGOR TRWYDDEDU - 27AIN MEHEFIN, 2017;**

**12 .12 PWYLLGOR CYNLLUNIO - 29AIN MEHEFIN, 2017.**

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

**CYNGOR SIR**

**26AIN EBRILL 2017**

**YN BRESENNOL:** Cynghorydd E. Morgan (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:-**

| | | | |
|---|---|---|---|
| S.M. Allen | D.J.R. Bartlett | S.M. Caiach | C.A. Campbell |
| J.M. Charles | A.P. Cooper | D.M. Cundy | A. Davies |
| W.R.A. Davies | D.B. Davies | G. Davies | I.W. Davies |
| J.A. Davies | S.L. Davies | T. Davies | T.T. Defis |
| T. Devichand | E. Dole | J.S. Edmunds | D.C. Evans |
| H.A.L. Evans | L.D. Evans | W.T. Evans | W.J.W. Evans |
| M. Gravell | P. Hughes-Griffiths | C.P. Higgins | W.G. Hopkins |
| J.K. Howell | I.J. Jackson | J.D. James | D.M. Jenkins |
| J.P. Jenkins | A.W. Jones | G.O. Jones | H.I. Jones |
| P.E.M. Jones | W.J. Lemon | A. Lenny | M.J.A. Lewis |
| D.J.R. Llewellyn | K. Madge | S. Matthews | A.G. Morgan |
| J. Owen | D. Price | D.W.H. Richards | B.A.L. Roberts |
| H.B. Shepardson | E.G. Thomas | G.B. Thomas | G. Thomas |
| J. Thomas | M.K. Thomas | R. Thomas | S.E. Thomas |
| J. Tremlett | D.E. Williams | J.S. Williams | |

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:-**
M. James, Prif Weithredwr
R. Mullen, Cyfarwyddwr yr Amgylchedd
C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
J. Morgan, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedau
W. Walters, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Adfywio a Pholisi)
P.R. Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad)
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith
A. Morgan, Prif Swyddog Addysg
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Siambr, Neuadd y Sir - 10.00yb - 11.30yb**

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr W.R.A. Davies, P. Edwards, P.M. Hughes, A. James, T.J. Jones, W.G. Thomas, D. Tomos, P.A. Palmer, A.D.T. Speake, L.M. Stephens, J. Williams a J.E. Williams.

**2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.**

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

**3. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD/ARWEINYDD.**

Bu i'r Cadeirydd longyfarch y Cynghorydd John Jenkins a'i wraig newydd ar eu priodas rai wythnosau'n ôl.

Bu i'r Cadeirydd longyfarch y Cynghorydd Daff Davies a Mr Ron Morgan, a oedd wedi cynrychioli Dyfed yn ddiweddar yn Rownd Derfynol y Siroedd yng Nghanolfan Saethu Canolbarth Cymru ac wedi dod yn Bencampwyr Cymru, gan drechu'r siroedd eraill i gyd. Hefyd enillodd Dyfed y wobr timau a Chwpan y Capteiniaid, gan drechu Gwent, a ddaeth yn ail.

Bu i'r Cadeirydd longyfarch Côr Merched Sir Gâr ar ennill cystadleuaeth Côr Cymru 2017. Fel y côr buddugol, byddant yn cynrychioli Cymru yng nghystadleuaeth Côr y Flwyddyn Eurovision 2017, a gynhelir yn Arena Riga yn Latfia, ddydd Sadwrn 22ain Gorffennaf 2017, gan gystadlu yn erbyn y corau gorau o Awstria, Gwlad Belg, Denmarc, Estonia, yr Almaen, Hwngari, Slofenia, a Latfia.

Cafodd Josh Griffiths o Rydaman ei longyfarch, sef y Prydeiniwr cyflymaf ym Marathon Llundain eleni; camp a enillodd iddo le ym Mhencampwriaethau'r Byd. Yn ogystal, cafodd y Cynghorydd C. Higgins ei longyfarch ar gwblhau Marathon Llundain.

Cafodd Ysgol Gynradd Bynea ei llongyfarch ar adroddiad Estyn gwych, a oedd yn rhoi statws gwyrdd iddi. Yn dilyn nifer o flynyddoedd heriol, cydnabuwyd bod yr ysgol bellach yn llwyddo ac yn ffynnu yn sgil amrywiol fentrau a gwaith rhagorol llywodraethwyr yr ysgol, y staff a'r Pennaeth, Mrs Tanya Morgan.

Rhoddodd y Cynghorydd G. Hopkins gyfle i'r Aelodau roi tuag at yr apêl ariannol yn y gobaith y gellid gwella'r sefyllfa o ran dioddefaint pobl yn Ne Sudan, Somalia, Ethiopia, Cenia, Nigeria ac Yemen.

Cafodd Clwb Rygbi yr Aman ei longyfarch ar ei lwyddiant yn ennill rownd derfynol y Fowlen yn Stadiwm Principality.

Cafodd Tîm Iau Clwb Rygbi Llandeilo ei longyfarch ar ennill Cwpan Sir Gaerfyrddin. Roedd llwyddiant y tîm dan 14 oed wedi arwain at fod yn ail yn y gynghrair a byddent yn cael dyrchafid i'r Uwch Gynghrair. Cafodd Dan Davies ei longyfarch a fyddai'n chwarae dros dîm dan 18 oed Cymru yn erbyn Lloegr a Ffrainc.

Cafodd tri gŵr o Landeilo eu llongyfarch sef Terry Evans, Matt Yelland a Daniel Humphries, yr oeddent i gyd wedi cael eu hamserau personol gorau ym Marathon Llundain y penwythnos diwethaf.

Llongyfarchiadau i Ysgol Teilo Sant ar ddod yn ail yng nghystadleuaeth Côr Cymru.

Cafodd Erin Lewis o Ysgol Bro Dinefwr ei llongyfarch ar ddod yn ail yng nghystadleuaeth dalent CBBC ‘What it takes’.

Cafodd Côr Ysgol Iau Llangennech ei longyfarch ar gyrraedd y rowndiau terfynol yn adran gynradd Côr y Flwyddyn.


Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline www.carmarthenshire.gov.wales

Cafodd Logan Williams a'i gi defaid eu llongyfarch, gan y byddent yn cynrychioli Cymru yn y Gystadleuaeth Cŵn Defaid i Bobl Ifanc (Treialon y Byd i rai dan 21 oed), a fyddai'n cael ei chynnal yn yr Iseldiroedd ym mis Gorffennaf eleni.

Cafodd Ffion Morgan ei llongyfarch ar ei llwyddiant ym myd pêl-droed merched, gan ei bod wedi camu o'r tîm dan 17 oed i'r tîm oedolion a oedd wedi chwarae yn erbyn Gogledd Iwerddon yn ddiweddar.

Cafodd Ysgol Bro Myrddin ei llongyfarch, a oedd wedi ennill Twrnamaint Rygbi Cymru Gyfan yn ddiweddar ym Mharc yr Arfau gan ennill statws Pencampwriaeth Cymru.

O ran proses yr etholiad a oedd ar gyrraedd, dymunai nifer o'r Aelodau ddiolch am gefnogaeth ac arweiniad y Swyddogion a bu iddynt ddymuno pob llwyddiant a hapusrwydd i'w gilydd yn y dyfodol.

Dywedodd y Cadeirydd, yn dilyn nifer y cyhoeddiadau oedd wedi cael eu gwneud yn y cyfarfod heddiw, ei bod yn galonogol gweld bod gan Sir Gâr lawer o sêr ym myd y campau ac roedd yn ymfalchïo ym mhobl ifanc y sir.

## 4. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFODYDD A GYNHALIWYD AR Y DYDDIADAU CANLYNOL:-

### 4.1. 22^AIN CHWEFROR, 2017;

**PENDERFYNWYD llofnodi bod cofnodion cyfarfod y Cyngor oedd wedi ei gynnal ar 22^ain Chwefror, 2017 yn gofnod cywir.**

### 4.2. 8^FED MAWRTH, 2017.

**PENDERFYNWYD llofnodi bod cofnodion cyfarfod y Cyngor oedd wedi ei gynnal ar 8^fed Mawrth, 2017 yn gofnod cywir.**

## 5. CWESTIYNAU GAN AELODAU (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW).

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan yr Aelodau.

## 6. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW).

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

## 7. YSTYRIED ARGYMHELLION Y BWRDD GWEITHREDOL O RAN Y MATERION CANLYNOL:-

### 7.1. POLISI INCWM A CHODI TÂL.

Rhoddwyd gwybod i'r Cyngor fod y Bwrdd Gweithredol, yn ei gyfarfod ar 27^ain Mawrth, 2017 wedi ystyried y Polisi Incwm a Chodi Tâl (gweler Cofnod 8) fyddai'n cael ei ddefnyddio i danategu datblygu dull mwy strategol a masnachol ar gyfer prosesau cynhyrchu incwm ac adennill dyledion y Cyngor, ac wedi gwneud argymhelliad, fel yr oeddid wedi manylu arno yn

adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol, i'w ystyried gan y Cyngor.

Nododd yr Aelodau, fel rhan o raglen waith TIC, bod Grŵp Llywio Incwm a Chodi Tâl wedi cael ei sefydlu, gyda'r nod o archwilio'r potensial o gynyddu incwm o ffioedd a thaliadau ac adolygu cadernid y prosesau presennol ar gyfer casglu incwm ac adennill dyledion. Un o ganfyddiadau cychwynnol y grŵp oedd bod angen mabwysiadu dull mwy strategol tuag at ei weithgareddau incwm a chodi tâl, a fyddai'n cael ei gefnogi drwy ddatblygu Polisi Incwm a Chodi Tâl Corfforaethol. Hefyd nododd yr Aelodau fod y polisi yn darparu cyfres o egwyddorion allweddol a fyddai'n cael eu defnyddio i danategu dull yr Awdurdod o ran incwm a chodi tâl a datblygu ymhellach dull mwy masnachol tuag at y gweithgareddau hyn.

Yn ogystal, byddai Gwasanaethau'n gallu cyfeirio at y Polisi pan fyddent am gyflwyno taliadau newydd neu adolygu'r rhai presennol. Roedd y Polisi yn cynnwys disgwyliadau o ran cadernid y prosesau casglu incwm ac adennill dyledion.

Roedd y polisi drafft wedi bod yn destun ymgynghori helaeth â'r holl adrannau a hefyd wedi ymateb i adroddiad diweddar Swyddfa Archwilio Cymru am 'Trefniadau Awdurdodau Lleol i godi tâl am wasanaethau a chynhyrchu incwm' a oedd wedi nodi'r angen i bob Awdurdod Lleol lunio Polisi Incwm a Chodi Tâl.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fabwysiadu'r argymhelliad canlynol gan y Bwrdd Gweithredol:-**
**“cymeradwyo'r Polisi Incwm a Chodi Tâl Corfforaethol”**

### 7.2. NEWID I'R POLISI RHEOLI'R TRYSORLYS, STRATEGAETH A'R POLISI DARPARIAETH ISAFSWM REFENIW.

Rhoddwyd gwybod i'r Cyngor fod y Bwrdd Gweithredol, yn ei gyfarfod ar 10fed Ebrill, 2017 (gweler cofnod 7) wedi ystyried adroddiad a oedd yn rhoi crynodeb o ganlyniad yr adolygiad ac yn nodi y dylai'r Cyngor ystyried newid y ffordd o ad-dalu benthyciadau'r Cyngor o ddull balans gostyngol o 4% i ddull llinell syth a gyfrifir ar sail bywyd amcangyfrifedig yr ased o ran asedau sefydlog yr Awdurdod.

Nododd yr Aelodau fod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn nodi y dylai'r Cyngor newid y brif ffordd o ad-dalu dyledion yr Awdurdod o ddull balans gostyngol o 4% i ddull llinell syth o 2.5%. Bernid bod hwn yn ddull mwy synhwyrol na'r ddarpariaeth bresennol, gan ei fod yn rhoi cyfnod mwy pendant ar gyfer gwaredu'r dyledion. Hefyd, roedd y dull hwn yn darparu rhai adnoddau ychwanegol i'r Awdurdod yn y dyfodol agos gan ei fod yn gwasgaru'r ad-daliadau dros fywyd yr ased.

Nododd yr Aelodau rai eithriadau lle na fyddai'r newid mewn polisi yn berthnasol, yr oeddent wedi eu cynnwys yn yr adroddiad, ond byddai yn berthnasol i feysydd fel y Cyfrif Refeniw Tai lle roedd canllawiau statudol ar waith.


Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline www.carmarthenshire.gov.wales

Felly cynigiwyd newid y Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw presennol, er mwyn iddo gefnogi darpariaeth flynyddol fwy darbodus, ar sail y canlynol:-

(1) Benthyca â chymorth a gwariant cyn 1 Ebrill 2008, fel yr oedd ar 31 Mawrth 2016 – i'w cynnwys yn y refeniw dros 40 mlynedd ar sail llinell syth, a bod y polisi hwn yn cael ei roi ar waith ar gyfer cyfrifon 2016-2017 ac ar gyfer Strategaeth Cyllideb Refeniw 2017-2018 hyd at 2019-2020;

(2) Benthyca heb gymorth - bod gwerth benthyca'r dyfodol yn cael ei gynnwys yn y refeniw dros 40 mlynedd neu drwy fywyd economaidd amcangyfrifedig yr ased os yw'n fyrrach;

(3) Y Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw ar gyfer Menter Benthyca Llywodraeth Leol Priffyrdd a rhaglen y fflyd i aros fel y mae wedi'i gymeradwyo ar hyn o bryd.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fabwysiadu'r argymhelliad canlynol gan y Bwrdd Gweithredol:-**
**“fod y newidiadau i'r Polisi Rheoli'r Trysorlys, Strategaeth a'r Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw, fel y nodwyd uchod, yn cael eu cymeradwyo.”**

## 8. DERBYN ADRODDIADIAU CYFARFODYDD Y BWRDD GWEITHREDOL A GYNHALIWYD AR Y DYDDIADAU CANLYNOL:-

### 8.1. 27AIN CHWEFROR, 2017;

**PENDERFYNWYD derbyn cofnodion y cyfarfod uchod.**

### 8.2. 13EG MAWRTH, 2017;

**PENDERFYNWYD derbyn cofnodion y cyfarfod uchod.**

### 8.3. 27AIN MAWRTH, 2017;

**PENDERFYNWYD derbyn cofnodion y cyfarfod uchod.**

### 8.4. 10FED EBRILL, 2017.

**PENDERFYNWYD derbyn cofnodion y cyfarfod uchod.**

## 9. YSTYRIED ARGYMHELLION Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD O RAN Y MATER CANLYNOL:-

### 9.1. ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL (IRPW), (CHWEFROR, 2017)

Rhoddwyd gwybod i'r Cyngor fod Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd, yn ei gyfarfod ar 14eg Mawrth 2017 (gweler Cofnod 5), wedi ystyried y penderfyniadau a'r argymhellion oedd yn Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, a oedd wedi ei gyhoeddi ym mis Chwefror 2017, gyda golwg ar argymell bod y Cyngor yn eu

cynnwys yng Nghynllun Cyflogau a Lwfansau'r Cynghorwyr a'r Aelodau Cyfetholedig ar gyfer 2017/18.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r argymhelliad canlynol gan Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd:-**

**9.1.1 nodi bod Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol wedi penderfynu bod y cyflog sylfaenol ar gyfer aelodau etholedig prif awdurdodau lleol yn cynyddu i £13,400 yn 2017/18;**

**9.1.2 cadw'r drefn bresennol o ran lefel yr uwch-gyflog a delir i Aelodau'r Bwrdd Gweithredol yn 2017/18 [Lefel 1];**

**9.1.3 cadw'r drefn bresennol o ran lefel yr uwch-gyflog a delir i Gadeiryddion Pwyllgorau yn 2017/18 [Lefel 1];**

**9.1.4 cadw'r drefn bresennol o ran lefel y cyflog a delir i Gadeirydd ac i Is-gadeirydd y Cyngor yn 2017/18 [Lefel 2];**

**9.1.5 cytuno ar y cyfraddau ad-dalu costau cynhaliaeth ar gyfer 2017/18 fel y nodir isod:-**

**£200.00 y noson ar gyfer Llundain;**
**£95 y noson mewn llefydd eraill;**
**£25 y noson am aros gyda ffrindiau neu berthnasau;**

**Cadw'r drefn bresennol o ran y lwfans dydd a'r arfer presennol bod yr Uned Gwasanaethau Democrataidd yn gyfrifol am drefniadau llety dros nos yr aelodau.**

**9.1.6 parhau â'r arfer presennol o nodi'r trefniadau ar gyfer Cyd-bwyllgorau Trosolwg a Chraffu ag Awdurdodau eraill a chynnwys y Pwyllgorau hyn yng nghynllun y Cyngor pe bai'r Cyngor yn penderfynu sefydlu Cyd-bwyllgorau yn ystod Blwyddyn y Cyngor 2017/18 a thalu cyflog;**

**9.1.7 bod y ffïoedd a delir i'r Aelodau Cyfetholedig yn aros ar y lefel bresennol ar gyfer 2017/18 sef 10 diwrnod llawn [neu 20 hanner diwrnod] o gyfarfodydd y flwyddyn;**

**9.1.8 cyhoeddi manylion y symiau a ad-dalwyd i aelodau a enwir o ran ad-dalu costau gofal [opsiwn 1];**

**9.1.9 derbyn gweddill argymhellion a phenderfyniadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer 2017 a'u cynnwys yn rhan o Gynllun presennol Lwfansau'r Cynghorwyr a'r Aelodau Cyfetholedig 2017/18.**

| ________________ | ________________ |
|---|---|
| **CADEIRYDD** | **DYDDIAD** |

**CYNGOR SIR**

**DYDD MERCHER, 24AIN MAI, 2017**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd E. Morgan [Cadeirydd]

Y Cynghorwyr:-

| | | | |
|---|---|---|---|
| C.A. Campbell | J.M. Charles | D.M. Cundy | A. Davies |
| W.R.A. Davies | G. Davies | I.W. Davies | J.A. Davies |
| S.L. Davies | E. Dole | J.S. Edmunds | P.M. Edwards |
| D.C. Evans | H.A.L. Evans | L.D. Evans | W.T. Evans |
| P. Hughes-Griffiths | A.D. Harries | J.K. Howell | P.M. Hughes |
| A. James | J.D. James | D.M. Jenkins | J.P. Jenkins |
| H.I. Jones | A. Lenny | M.J.A. Lewis | K. Madge |
| S. Matthews | D. Price | H.B. Shepardson | A.D.T. Speake |
| L.M. Stephens | E.G. Thomas | G.B. Thomas | G. Thomas |
| J. Tremlett | J.E. Williams | D.E. Williams | F. Akhtar |
| L.R. Bowen | K.V. Broom | S.A. Curry | C.A.. Davies |
| H.L. Davies | T.A.J. Davies | R.E. Evans | A.L. Fox |
| S.J.G. Gilasbey | C.J. Harris | T.M. Higgins | R. James |
| A.C.J. Jones | D. Jones | G.R. Jones | K. Lloyd |
| A.S.J. McPherson | D. Nicholas | A.Vaughan Owen | B.D.J. Phillips |
| J.S. Phillips | J.G. Prosser | E.M.J.G. Schiavone | B. Thomas |
| D.T. Williams | | | |

**Hefyd yn Bresennol:-**

| | | |
|---|---|---|
| Mr M. James | - | Prif Weithredwr |
| Mr C. Moore | - | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol |
| Mr J. Morgan | - | Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedau |
| Mr G. Morgans | - | Cyfarwyddwr Addysg a Phlant Dros Dro |
| Ms R. Mullen | - | Cyfarwyddwr yr Amgylchedd |
| Mr P.R. Thomas | - | Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad) |
| Ms W. Walters | - | Prif Weithredwr Cynorthwyol (Adfywio a Pholisi) |
| Mr M.S. Davies | - | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**Y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin : 11.00 a.m. - 12.00 p.m.**

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB A MATERION PHERSONOL**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr S.M. Allen, John, B. Jones, T.J. Jones, A.G. Morgan (sesiwn y bore yn unig) S. Najmi, B.A.L. Roberts (sesiwn y bore yn unig) a D. Thomas.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y newyddion trist am farwolaeth y cyn gynghorydd W.D. Thomas a mynegodd ei gydymdeimlad â'r teulu

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y newyddion trist am farwolaeth cyn Brif Weinidog Cymru Rhodri Morgan a mynegodd ei gydymdeimlad â'r teulu

Safodd aelodau'r Cyngor mewn teyrnged dawel i ddioddefwyr yr ymosodiad diweddar ym Manceinion. Dywedodd y Prif Weithredwr wrth yr Aelodau ei fod wedi anfon llythyr o gefnogaeth at Ddinas Manceinion.

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.**

| Cynghorydd | Rhif y Cyfnod | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| A.D.T. Speake | 16 - Newidiadau I Gyfansoddiad y Cyngor | Yn derbyn pensiwn rhyfel. |

3. **CYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD YMADAWOL**

Croesawodd Eryl Morgan y Cadeirydd a oedd yn Ymddeol, westeion nodedig, Cynghorwyr, staff a ffrindiau i'r cyfarfod.

Bu'r Cynghorydd Morgan yn edrych yn ôl ar ei flwyddyn yn y swydd a diolchodd i bobl Sir Gaerfyrddin am estyn gwahoddiad iddo i nifer o ddigwyddiadau gan roi cyfle iddo, yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd, gael golwg unigryw ar yr hyn oedd yn digwydd yng nghymunedau'r Sir, a chymysgu â gwahanol gymdeithasau a mudiadau yn Sir Gaerfyrddin, a oedd yn sir mor gyfoethog ac mor amrywiol. Mynegodd ei ddiolch yn ddiffuant am yr holl gefnogaeth a gawsai ef a'i gydymaith drwy gydol yr hyn a ystyriai ef yn bersonol yn flwyddyn lwyddiannus iawn. Ychwanegodd y Cadeirydd oedd yn Ymddeol taw un o'i flaenoriaethau yn ystod y flwyddyn oedd codi arian at ei ddwy elusen enwebedig sef Hosbis Tŷ Bryngwyn ac Offer Canser y Prostad yn Ysbyty Tywysog Philip Llanelli, a diolchodd i'r aelodau, i'r staff ac i bobl Sir Gaerfyrddin am eu cefnogaeth a'u cyfraniadau hael. Diolchodd i'w Is-gadeirydd, y Cynghorydd Irfon Jones, a'i Gydymaith Mrs Jean Jones, am eu cymorth a'u cwmni yn ystod ei gyfnod yn y swydd.

Diolchodd y Cadeirydd oedd yn Ymddeol i Mr Mark James am ei gyngor a'i arweiniad proffesiynol, ac i'r Cyfarwyddwyr a staff yr Awdurdod oedd yn estyn cymorth i'r Cadeirydd, gan gyfeirio at yr Uned Gwasanaethau Democrataidd, ei yrrwr Jeff Jones ac yn benodol at Eira Evans am ei chefnogaeth broffesiynol a phersonol, am drefnu ei ddigwyddiadau, ac am sicrhau bod popeth yn mynd yn hwylus bob amser.

4. **ETHOL CADEIRYDD Y CYNGOR AM FLWYDDYN Y CYNGOR 2017/18**

**Cynigiwyd gan y Cynghorydd E. Morgan ac eiliwyd gan y Cynghorydd E. Dole a PHENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ethol y Cynghorydd H.I. Jones yn Gadeirydd Cyngor Sir Caerfyrddin ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2017/18.**

Gwnaeth y Cynghorydd H.I. Jones ei ddatganiad yn derbyn y swydd, ac fe'i harwisgwyd â'r Gadwyn Swyddogol gan y Cadeirydd oedd yn ymddeol.

Diolchodd y Cynghorydd H.I. Jones i'r Grŵp Annibynnol am gyflwyno ei enw ar gyfer swydd Cadeirydd yr Awdurdod, a mynegodd ei ddiolchiadau i'r Cynghorwyr am eu cefnogaeth yn ei benodi yn Gadeirydd Cyngor Sir Caerfyrddin. Dywedodd ei fod yn gobeithio efelychu'r safon uchel o ran Cadeiryddiaeth a ddarparwyd gan ei ragflaenwyr. Cyflwynodd y Cynghorydd Jones deyrnged i'r Cadeirydd oedd yn ymddeol, y Cynghorydd E. Morgan a chyflwynodd i'r Cadeirydd oedd yn ymddeol ddarlun ac albwm o ffotograffau i nodi rhai o'r prif ddigwyddiadau yn ystod ei


Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales

flwyddyn yn y swydd, ynghyd â Chrogdlws i nodi ei fod yn Gyn-gadeirydd.

Yna cyflwynodd Jean Morgan, cydymaith y Cadeirydd oedd yn Ymddeol Gadwyn Swyddogol i Mrs Jean Jones, a cyflwynodd Mrs Jean Jones Grogdlws ar gyfer Cydymaith Cyn-gadeirydd i Mrs Jean Morgan.

TEYRNGEDAU
Bu arweinwyr y Grŵp Annibynnol, Grŵp Plaid Cymru a'r Grŵp Llafur yn talu teyrnged i'r Cadeirydd oedd yn ymddeol am ei wasanaeth ardderchog i'r Cyngor. Cyfeiriwyd yn benodol at y modd rhagorol yr oedd y Cynghorydd Morgan's wedi cadeirio cyfarfodydd y Cyngor. Yn ogystal talodd y Prif Weithredwr deyrnged ar ran staff yr Awdurdod i'r Cadeirydd oedd yn Ymddeol, a oedd wedi cyflawni'r rôl mewn modd proffesiynol dros ben gan fod yn hynod o gefnogol i waith y Cyngor.

## 5. ETHOL IS-GADEIRYDD Y CYNGOR AM FLWYDDYN Y CYNGOR 2017/18

**Cynigiwyd gan y Cynghorydd C. Campbell, ac eiliwyd gan y Cynghorydd L.M. Stephens a PHENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ethol y Cynghorydd J.M. Charles yn Is-gadeirydd Cyngor Sir Caerfyrddin am Flwyddyn y Cyngor 2017/18.**

Gwnaeth y Cynghorydd J.M. Charles ei ddatganiad yn derbyn y swydd, ac fe'i harwisgwyd â'r Gadwyn Swyddogol gan y Cadeirydd.

Mynegodd y Cadeirydd longyfarchiadau i'r Is-gadeirydd a'i Gydymaith ar eu penodiad.

Cyflwynwyd Cadwyn y Swydd i gydymaith y Cadeirydd, Mrs Jean Jones, gan gydymaith y Cadeirydd Mrs Jean Morgan.

## 6. ETHOL ARWEINYDD Y CYNGOR

Cynigiwyd ac eiliwyd bod y Cynghorydd Emlyn Dole yn cael ei ethol yn Arweinydd y Cyngor.

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Emlyn Dole yn Arweinydd y Cyngor.**

## 7. GOHIRIAD

**Cynigiodd y Cadeirydd, eiliwyd hynny gan yr Is-gadeirydd, a PHENDERFYNWYD YN UNFRYDOL y dylid gohirio gweddill y materion ar yr agenda tan 2.00pm yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw.**

## 8. AILYMGYNNULL Y CYFARFOD

Roedd y Cyngor wedi ailymgynnull yn y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin am 2.00 p.m.

Yr aelodau a oedd yn bresennol yn dilyn ailgynnull y cyfarfod:-

**YN BRESENNOL:** - Y Cynghorydd H.I. Jones [Cadeirydd]

**Y Cynghorwyr:**
F. Akhtar, K.V. Broom, C.A. Campbell, J.M. Charles, S.A. Curry, A. Davies, T.A.J. Davies, C.A. Davies, G. Davies, H.L. Davies, J.A. Davies, S.L. Davies, E. Dole, J.S. Edmunds, P.M. Edwards, H.A.L. Evans, L.D. Evans, R. Evans, W.T. Evans, A.L. Fox, S.J. Gilasbey, T.M. Higgins, P. Hughes-Griffiths, P.M. Hughes, A. James, J.D. James, R. James, D.M. Jenkins, J.P. Jenkins, A.C. Jones, D.L. Jones, G.R. Jones, A. Lenny, M.J.A. Lewis, K. Lloyd, K. Madge, S. Matthews, A.S.J. McPherson, A.G. Morgan, E. Morgan, D. Nicholas, B.D.J. Phillips, J.S. Phillips, D. Price, J.G. Prosser, B.A.L. Roberts, E.M.J.G. Schiavone, H.B. Shepardson, A.D.T. Speake, L.M. Stephens, B. Thomas, E.G. Thomas, G. Thomas, J. Tremlett, A. Vaughan-Owen, D.E. Williams, D.T. Williams and J.E. Williams.

Roedd y Swyddogion canlynol yn bresennol yn y cyfarfod:

| | | |
|---|---|---|
| Mr M. James | - | Y Prif Weithredwr |
| Mr C. Moore | - | Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol |
| Mr J. Morgan | - | Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedol, |
| Mr G. Morgans | - | Y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant |
| Mrs R. Mullen | - | Cyfarwyddwr yr Amgylchedd |
| Ms L. Rees Jones | - | Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith |
| Mr P. Thomas | - | Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad) |
| Mrs W. Walters | - | Y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Adfywio a Pholisi) |
| Mr I. Llewellyn | - | Rheolwr Cymorth Gweithredol |
| Mrs H. Morgan | - | Rheolwr Datblygu Economaidd |
| Mrs M. Evans Thomas | - | Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**Y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin : 2.00 p.m. – 3.15 p.m.**

**9. YMDDIHEURIADAU**

Cafwyd ymddiheuriad pellach gan y Cynghorwyr L.R. Bowen, D.M. Cundy, I.W. Davies, W.R.A. Davies, C.J. Harris, K. Howell, T.J. Jones a G.B. Thomas.

**10. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL**

| Y Cynghorydd | Rhif y Cofnod | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| K. Madge | 12 - Adroddiad Blynyddol Arweinydd y Cyngor | Mae ei ferch yn gweithio yn gofal cymdeithasol. |

**11. DERBYN ADRODDIAD ARWEINYDD Y CYNGOR YNGHYLCH PENODI CYNGHORWYR SY'N CAEL EU DEWIS I WASANAETHU AR Y BWRDD GWEITHREDOL**

Dywedodd yr Arweinydd ei fod wedi ystyried penodi aelodau i wasanaethu ar y Bwrdd Gweithredol a rhoddodd wybod i'r Cyngor am y penodiadau canlynol:-

| Cynghorydd | | Portffolio |
|---|---|---|
| Mair Stephens | - | Dirprwy Arweinydd |
| Cefin Campbell | - | Cymunedau a Materion Gwledig |
| Glynog Davies | - | Addysg a Phlant |
| Hazel Evans | - | Yr Amgylchedd |
| Philip Hughes | - | Diogelu'r Cyhoedd |
| Peter Hughes Griffiths | - | Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth |
| David Jenkins | - | Adnoddau |
| Jane Tremlett | - | Gofal Cymdeithasol ac Iechyd |

Rhoddodd fanylion am bortffolio Aelodau'r Bwrdd Gweithredol ac esboniodd fod penodiad y Cynghorydd Linda Evans yn Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Dai i'w gadarnhau.

**12. DERBYN ADRODDIAD BLYNYDDOL ARWEINYDD Y CYNGOR**

[NODER: Yr oedd y Cynghorydd K. Madge wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach.]

Cyflwynodd yr Arweinydd ei adroddiad blynyddol, a rhoddwyd copïau ohono yn ystod y cyfarfod, a oedd yn edrych yn ôl ar lwyddiannau'r Cyngor dros y 12 mis diwethaf. Fodd bynnag roedd yr adroddiad ychydig yn wahanol eleni, oherwydd yn ogystal â bod yn ddiwedd blwyddyn y Cyngor, roedd hefyd yn ddiwedd tymor pum mlynedd y Cyngor.

Roedd nifer o Gynghorwyr a fu'n gwasanaethu am gyfnod hir wedi ymddeol yn ystod yr etholiad diweddar ac roedd cyfnodau swyddi aelodau eraill wedi dirwyn i ben. Cyfeiriodd at eu hawydd i gynrychioli eu cymunedau lleol a rhoddodd ganmoliaeth iddynt am eu cyfraniad at waith y Cyngor dros y blynyddoedd. Rhoddodd deyrnged benodol i'r Cynghorydd Meryl Gravell am ei hymrwymiad a'i hymroddiad i'r Cyngor a'i dyhead diffuant i wneud Sir Gaerfyrddin yn lle gwell i'w thrigolion oll.

Cyfeiriodd at y ddau addewid pendant a wnaeth pan ddaeth yn Arweinydd sef y byddai'n canolbwyntio ar adfywio ledled y sir ac yn amddiffyn gwasanaethau rhengflaen. Roedd y Bwrdd Gweithredol wedi cefnogi'n llwyr ei weledigaeth ar gyfer y sir a diolchodd iddynt am eu cyfraniad at yr hyn a fu'n flwyddyn lwyddiannus iawn i'r Cyngor, a llwyddwyd i gyflawni hyn wrth wynebu toriadau llym o ran gwariant cyhoeddus gan lywodraethau Cymru a'r DU.

Yn ôl yr Arweinydd uchafbwynt y flwyddyn ddiwethaf yn ddiamheuaeth oedd sicrhau Bargen Ddinesig Bae Abertawe. Hwn yw'r buddsoddiad mwyaf erioed yn Ne-orllewin Cymru. Bydd Sir Gaerfyrddin yn elwa ar dri phrosiect penodol: Y Pentref Llesiant a Gwyddorau Bywyd yn Llanelli, prosiect diwydiant creadigol Yr Egin yng Nghaerfyrddin, a menter sgiliau a thalentau a fydd yn helpu i ddatblygu sgiliau ar gyfer y rhanbarth cyfan.

Cyfeiriodd at y ffaith fod y Cyngor dros y 12 mis diwethaf wedi:-

- Buddsoddi miliynau o bunnoedd mewn prosiectau cyffrous i greu cannoedd o swyddi sy'n talu'n dda er mwyn helpu i gadw ein pobl ifanc yn ein sir;
- Lansio rhaglen 1,000 o dai fforddiadwy, yn cynnwys adeiladu 60 o dai Cyngor;
- Cadw'r cynnydd yn y Dreth Gyngor i 2.5%;
- Diogelu ysgolion rhag toriadau go iawn i gyllid;
- Diogelu'r Gwasanaethau Cymdeithasol a chanfod arian ychwanegol ar gyfer atgyweiriadau hanfodol i briffyrdd;
- Rhoi codiad cyflog haeddiannol iawn o 2.6% i'n staff sydd ar y cyflogau isaf.

Bydd dau ddigwyddiad yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn cael effaith sylweddol a hirhoedlog ar lywodraeth leol yng Nghymru. Yn y lle cyntaf, roedd y Gweinidog Llywodraeth Leol wedi colli ei sedd yn Etholiadau'r Cynulliad ym mis Mai 2016, a roddodd derfyn sydyn ar y cynnig i aildrefnu llywodraeth leol a chyflwynwyd yn hytrach llawer mwy o bwyslais ar gydweithio rhwng cynghorau. Mae Sir Gaerfyrddin wedi derbyn y cysyniad hwn yn llawn ac mae llwyddiant Bargen Ddinesig Bae Abertawe yn adrodd cyfrolau ynghylch pa mor benderfynol ydym o weithio'n glos gydag awdurdodau cyfagos. Yn ail oedd penderfyniad pobl Prydain i adael yr Undeb Ewropeaidd. Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi elwa'n fawr iawn ar gyllid gan yr UE ers blynyddoedd lawer, ac mae canlyniad refferendwm y llynedd yn debygol o'n gadael â diffyg cyllid. Bydd yn rhaid i ni aros i weld a wnaiff llywodraeth San Steffan gadw at ei haddewid i lenwi'r bwlch.

Dywedodd yr Arweinydd ei fod yn falch o'r hyn a gyflawnwyd yn Sir Gaerfyrddin yn ystod y ddwy flynedd, fodd bynnag, roedd llawer mwy i'w wneud ac roedd yn hyderus y byddai'r Bwrdd Gweithredol newydd yn ymgymryd â'r her ac yn symud ymlaen â'r gwaith o greu mwy o swyddi, codi safonau byw, darparu tai fforddiadwy a sicrhau bod ein cymunedau yn leoedd hyd yn oed yn well i fyw a gweithio.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Arweinydd am ei adroddiad a'i gyflwyniad ac estynnodd wahoddiad i Arweinydd y Grŵp Llafur, sef yr Wrthblaid, ymateb.

Diolchodd Arweinydd y Grŵp Llafur i Arweinydd y Cyngor am ei adroddiad. Estynnodd ei longyfarchiadau i'r Cyngor ar yr hyn sydd wedi'i gyflawni a chyfeiriodd at gyfraniad y weinyddiaeth flaenorol tuag at y llwyddiannau hynny. Rhoddodd ganmoliaeth i'r Prif Weithredwr a'r cyn-Gynghorydd Meryl Gravell ar lwyddiant cynllun Dinas Rhanbarth Bae Abertawe yn Llanelli a'r buddsoddiad a swyddi y byddai'r cynllun yn ei ddenu i'r ardal. Cyfeiriodd at bwysigrwydd y Cyngor yn dod mor wyrdd â phosibl a'r angen i weithio gyda'n gilydd ar y fenter hon. Gofynnod i'r weinyddiaeth edrych yn ofalus ar unrhyw doriadau i'r gyllideb yn enwedig o ran addysg wrth i faint dosbarthiadau gynyddu'n aruthrol o gyflym.

Diolchodd y Cadeirydd i Arweinydd y Grŵp Llafur am ei ymateb ac estynnodd wahoddiad i Arweinydd y Grŵp Annibynnol roi ei sylwadau ar yr adroddiad.

Dywedodd Arweinydd y Grŵp Annibynnol fod adroddiad yr Arweinydd yn dwyn ynghyd yr holl waith rhagorol sy'n cael ei gyflawni gan yr Awdurdod. Ychwanegodd fod adfywio yn cymryd amser a swyddogaeth clymblaid yw sicrhau bod pethau yn symud ymlaen. Cyfeiriodd at y ffaith y byddai adroddiad o'r fath yn anodd i Awdurdodau eraill ei gyflawni gan fod gennym ffordd wahanol iawn o weithio yn Sir Gaerfyrddin. Mae gennym weledigaeth ac rydym yn cadw at y weledigaeth


Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline www.carmarthenshire.gov.wales

honno. Roedd yn cyfaddef bod heriau ond byddwn yn wynebu'r heriau hynny ac yn mynd i'r afael â rhain.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi Adroddiad yr Arweinydd fel y cafodd ei gylchredeg yn ystod y cyfarfod.**

## 13. PROTOCOL AR GYFER ENWEBU CADEIRYDD Y CYNGOR

Bu'r Cyngor yn ystyried adroddiad a oedd yn awgrymu protocol ar gyfer enwebu Cadeirydd y Cyngor ar gyfer cyfnod 2017/18 i 2022/23. Mae cael protocol ar waith yn cynorthwyo â'r paratoadau ar gyfer y Cyfarfod Blynyddol bob blwyddyn, gyda'r Cyngor yn cytuno ar enwebiadau yn ystod ei gyfarfod ym mis Ebrill (heblaw yn ystod blwyddyn etholiadau'r Cyngor Sir).

Roedd y Cyngor blaenorol wedi mabwysiadu protocol ar gyfer enwebu Cadeirydd y Cyngor hyd at Flwyddyn y cyngor 2017/18 ac os oedd y Cyngor yn penderfynu defnyddio protocol tebyg i'r un blaenorol, byddai'r enwebiadau fel a ganlyn:-

| | |
|---|---|
| 2017/18 | Annibynnol (fel y cytunwyd yn y Cyngor ar 1 Mehefin) |
| 2018/19 | Plaid Cymru |
| 2019/20 | Llafur |
| 2020/21 | Annibynnol |
| 2021/22 | Plaid Cymru |
| 2022/23 | Llafur |

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL mabwysiadu'r protocol ar gyfer enwebu Cadeirydd y Cyngor, fel y manylwyd arno uchod ar gyfer y cyfnod 2017/18 i 2022/23.**

## 14. AELODAETH PWYLLGORAU CRAFFU, PWYLLGORAU RHEOLEIDDIO A PHWYLLGORAU ERAILL Y CYNGOR A PHENODI AELODAU I WASANAETHU ARNYNT

Bu'r Cyngor yn ystyried adroddiad ynghylch Aelodaeth y Pwyllgorau Craffu, y Pwyllgorau Rheoleiddio a Phwyllgorau Eraill y Cyngor ac ynghylch penodi aelodau i wasanaethu arnynt. Nodwyd y bod unrhyw newidiadau i aelodaeth a gafodd eu cynnig gan y grwpiau gwleidyddol yn cael eu hamlygu yn yr adroddiad.

Roedd yn ofynnol i'r Cyngor, yn unol â'i Gyfansoddiad, benodi aelodau i wasanaethu ar ei bwyllgorau, ac i ddyrannu'r seddi hynny fel eu bod yn adlewyrchu cyfansoddiad gwleidyddol y Cyngor yn ei gyfanrwydd.

Yn dilyn ystyried strwythur gwleidyddol newydd yr Awdurdod ac er mwyn sicrhau bod dyraniad llawr o seddi ar gael i'w dosbarthu ymysg y grwpiau gwleidyddol a'r aelodau heb gysylltiad pleidiol, argymhellwyd cynyddu'r cyfrifiad o ran dosbarthiad y seddi ar bwyllgorau o 1 i 167 (fel y cytunwyd gan y Cyngor blaenorol) i 168 gyda nifer y seddi ar gael ar Bwyllgorau Craffu yn cynyddu o 67 i 68. Argymhellwyd hefyd newid i nifer yr aelodau ar bwyllgorau rheoleiddio a phwyllgorau eraill er mwyn adlewyrchu cydbwysedd gwleidyddol newydd y Cyngor, gan sicrhau bod yr holl seddi yn cael eu dyrannu ar sail wleidyddol gytbwys, gyda nifer y seddi ar bwyllgorau hefyd yn cael eu dyrannu i adlewyrchu, cyhyd ag sy'n bosibl, cydbwysedd gwleidyddol y Cyngor yn ei gyfanrwydd.

Cafwyd yr enwebiadau canlynol gan Arweinydd y Grŵp Llafur ar gyfer swyddi gwag y pwyllgor a oedd yn weddill:-

- Y Cynghorydd John Prosser i wasanaethu ar Bwyllgor Cronfa Bensiwn Dyfed
- Y Cynghorydd John James i fod yn aelod dirprwyol ar y Panel Adolygu Tai
- Y Cynghorydd Louvain Roberts i wasanaethu ar y Pwyllgor Cynllunio

Nid oedd dim newidiadau o ran aelodaeth ychwanegol.

**PENDERFYNWYD**

**14.1 cynyddu cyfanswm y seddau ar Bwyllgorau o 1 sef 167 i 168 o seddau;**

**14.2 yn dilyn mabwysiadu 14.1 uchod, cynyddu nifer y seddau ar Bwyllgorau Craffu o 67 i 68;**

**14.3 bod cyfansoddiad ac aelodaeth Pwyllgorau Rheoleiddio, Pwyllgorau Craffu a Phwyllgorau eraill ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2017/18, fel y nodwyd yn Atodiad 1 yr adroddiad yn cynnwys yr enwebiadau uchod gan y Grŵp Llafur yn cael eu cymeradwyo.**

**15. PENODI CADEIRYDDION AC IS-GADEIRYDDION PWYLLGORAU / PANELAU CANLYNOL Y CYNGOR AM FLWYDDYN Y CYNGOR 2017/18**


Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline www.carmarthenshire.gov.wales

Rhoddodd y Cyngor ystyriaeth i'r enwebiadau oedd wedi dod i law ar gyfer penodi Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau am Flwyddyn y Cyngor 2017/18.

Er mwyn cael enwebiadau ar gyfer Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Pwyllgorau

**PENDERFYNWYD atal Rheol Gweithdrefn y Cyngor 4 (2) er mwyn ystyried yr enwebiadau ar gyfer Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Pwyllgorau ar gyfer blwyddyn y cyngor 2017/18.**

Ni chafwyd yr un enwebiadau arall ac felly

**PENDERFYNWYD HEFYD bod y canlynol yn cael eu penodi'n Gadeiryddion ac yn Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Rheoleiddio, y Pwyllgorau Craffu, a'r Pwyllgorau a'r Panelau Eraill am Flwyddyn y Cyngor 2017/18:-**

| Y PWYLLGOR / PANEL | Y CADEIRYDD | IS-GADEIRYDD |
|---|---|---|
| Y Pwyllgor Craffu - Cymunedau | Y Cynghorydd S.L.Davies | Y Cynghorydd J.K.Howell |
| Y Pwyllgor Craffu - Addysg a Phlant | Y Cynghorydd D. Price | Y Cynghorydd E.G.Thomas |
| Y Pwyllgor Craffu - Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd | Y Cynghorydd J.D. James | Y Cynghorydd A. Davies |
| Y Pwyllgor Craffu - Polisi Ac Adnoddau | Y Cynghorydd A.G.Morgan | Y Cynghorydd D.E.Williams |
| Y Pwyllgor Craffu - Gofal Cymdeithasol ac Iechyd | Y Cynghorydd G.Thomas | Y Cynghorydd I.W.Davies |
| Pwyllgor Apêl | Y Cynghorydd J.K.Howell | Y Cynghorydd S.M. Allen |
| Pwyllgor Penodi "A" – Cyfarwyddwyr | Y Cynghorydd E.Dole | Y Cynghorydd L.M. Stephens |
| Pwyllgor Penodi "A" - Penaethiaid Gwasanaeth | Y Cynghorydd L.M. Stephens | Y Cynghorydd E.Dole |
| Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd | Y Cynghorydd R.James | Y Cynghorydd W.T.Evans |
| Y Pwyllgor Cynllunio | Y Cynghorydd A. Lenny | Y Cynghorydd H.I.Jones |
| Y Pwyllgor Trwyddedu | Y Cynghorydd E.G.Thomas | Y Cynghorydd D.E.Williams |
| Y Pwyllgor Penodi Aelodau | Y Cynghorydd A.D.T. Speake | Y Cynghorydd W.R.A. Davies |
| Y Panel Adolygu Tai | Y Cynghorydd G.B.Thomas | Y Cynghorydd I.W.Davies |
| Y Panel Buddsoddi | Y Cynghorydd D.E.Williams | Dim angen |

## 16. NEWIDIADAU I GYFANSODDIAD Y CYNGOR

[NODER: Yr oedd y Cynghorydd A.D.T. Speake wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach.]

Dywedwyd wrth y Cyngor ei fod yn ofynnol yn ôl Rheoliadau Maint a Chyfansoddiad Pwyllgorau Awdurdodau Cynllunio Lleol (Cymru) 2017 a ddaeth i rym ar 5 Ebrill 2017, i Pwyllgorau Cynllunio yng Nghymru cael eu strwythuro a'u gweithredu yn unol â'r gofynion canlynol:-

- Rhaid i'r Pwyllgor Cynllunio gynnwys heb fod yn llai nag 11 aelod a heb fod yn fwy na 21 aelod, ond ni ddylai fod yn fwy 50% o Aelodau'r Awdurdod (wedi'i dalgrynnu i'r rhif cyfan agosaf);
- Pan fo mwy nag un aelod etholedig, dim ond un aelod all wasanaethau ar y Pwyllgor Cynllunio, er mwyn caniatáu i aelodau eraill y ward i gyflawni'r rôl gynrychioladol ar gyfer buddiannau'r gymuned leol.

Yn ogystal yn ôl Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) (Diwygio) 2017 a ddaeth i rym ar 5 Mai, 2017, mae'r canlynol yn ofynnol:-

- Rhaid i bob cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio gael cworwm o 50% i wneud penderfyniadau; ac
- nid oes hawl defnyddio aelodau dirprwyol.

Bydd methu â chadw at ofynion y rheoliadau uchod yn effeithio ar ddilysrwydd penderfyniadau a wneir gan y Pwyllgor Cynllunio. Roedd felly'n hanfodol i ddiwygio cyfansoddiad y Cyngor er mwyn sicrhau bod y Pwyllgorau Cynllunio yn cael eu penodi yn unol â'r gofynion hyn cyn gwneud penderfyniadau.

Dywedwyd wrth y Cyngor hefyd yn gyfansoddiadol, cyfrifoldeb y Cyngor oedd mabwysiadu Cynllun Lwfansau'r Cynghorwyr ond bellach y Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol sy'n dynodi'r cyfansymiau i'w talu gyda'r nod o ddarparu fframwaith cenedlaethol cyson o ran cydnabyddiaeth i gynghorwyr. Bu'r Cyngor yn ystyried newidiadau ar gyfer 2017/18 yn ystod ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Ebrill, 2017 (cofnod 9.1). Atodwyd copi i'r adroddiad, er mwyn ei ystyried, o'r Cynllun Lwfansau a fabwysiadwyd gan y Cyngor ar gyfer 2016/17 a ddiwygiwyd er mwyn ei weithredu ar gyfer blwyddyn y cyngor 2017/18.

Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys diwygiadau ychwanegol er mwyn adlewyrchu argymhellion y Gweithgor Adolygu'r Cyfansoddiad yn ystod ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Rhagfyr 2016.

Cyfeiriwyd at RhGC 10.1 a, tra'n cefnogi'r ddarpariaeth hon, y farn oedd y dylid ei ddiwygio er mwyn atal rhagymadroddion hir mewn cyfarfodydd a gynigiwyd y gwelliant canlynol mewn ffurf ychwanegiad i RhGC 10.1: “Gellir cyflwyno cefndir neu rhagymadrodd weddol cryno gyda'r cwestiwn a fydd yn cael ei gyhoeddi ar agenda'r cyfarfod ond dim ond y cwestiwn ei hun a'r cwestiwn atodol gellir ei roi ar lafar.”

**PENDERFYNWYD**

**16.1 Diwygio Cyfansoddiad y Cyngor (rhannau 13.1, 4.1 a 5.2) i gynnwys y newidiadau i aelodaeth a maint Pwyllgorau Cynllunio a ddaeth i rym ar**


Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales

**5 Mai 2017; ac unrhyw newidiadau ychwanegol a argymhellwyd gan y Gweithgor Adolygu'r Cyfansoddiad;**

**16.2 Diwygio Rhan 4.5 (Rheolau Gweithdrefn Craffu) 5.6 (Protocol Cyfathrebu ag Aelod Etholedig) a RHan 4.1 – Rheol Gweithdrefn y Cyngor 22 (Ffilmio Cyfarfodydd) i ystyried ac egluro'r argymhellion a wnaed gan y Gweithgor Adolygu'r Cyfansoddiad;**

**16.3 Mabwysiadu Cynllun Cyflogau a Lwfansau Cynghorwyr ac Aelodau Cyfetholedig ar gyfer 2017/18 (Rhan 6.1);**

**16.4 Cymeradwyo unrhyw newidiadau angenrheidiol i'r Cyfansoddiad sy'n deillio o benderfyniadau a wnaed yn gynharach yn y cyfarfod;**

**16.5 Bod y Swyddog Monitro yn cael ei awdurdodi i wneud unrhyw fân newidiadau, cywiro gwallau teipio neu wallau drafftio a sicrhau bod yr holl groesgyfeiriadau yn y Cyfansoddiad yn gywir ac y rhoddir gwybod am y rhain i Weithgor Adolygu'r Cyfansoddiad pan fydd angen;**

**16.6 Cyfeirio'r newidiad arfaethedig i RhGC 10.1, fel y nodir uchod, i'r Gweithgor Adolygu'r Cyfansoddiad i'w ystyried a bod adroddiad yn dod yn ôl i'r Cyngor;**

**16.7 Heblaw am y diwygiadau uchod, mae'r Cyfansoddiad yn parhau'r un fath.**

## 17. PENODI AELODAU I WEITHGOR TRAWSBLEIDIOL ADOLYGU'R CYFANSODDIAD AC I'R PANEL YMGYNGHOROL YNGHYLCH Y POLISI TÂL

Bu'r Cyngor yn ystyried enwebiadau a gafwyd o ran penodi aelodau i wasanaethu ar y Gweithgor Adolygu'r Cyfansoddiad a'r Panel Ymgynghorol ynghylch y Polisi Tâl.

**PENDERFYNWYD ar y penodiadau canlynol:**

| Gweithgor/Panel Ymgynghorol | Cynrychiolwyr a Benodwyd |
|---|---|
| **Gweithgor Adolygu'r Cyfansoddiad** | Y Cynghorydd **E. Dole**<br>Y Cynghorydd **J.S. Edmunds**<br>Y Cynghorydd **H.A.L. Evans**<br>Y Cynghorydd **W.T. Evans**<br>Y Cynghorydd **P. Hughes Griffiths**<br>Y Cynghorydd **J.D. James**<br>Y Cynghorydd **R. James**<br>Y Cynghorydd **D.M. Jenkins**<br>Y Cynghorydd **L.M. Stephens**<br>Y Cynghorydd **J. Tremlett** |
| **Y Panel Ymgynghorol Ynghylch Y Polisi Tâl** | Y Cynghorydd **E. Dole**<br>Y Cynghorydd **J.S. Edmunds**<br>Y Cynghorydd **H.A.L. Evans**<br>Y Cynghorydd **D.M. Jenkins**<br>Y Cynghorydd **J.G. Prosser**<br>Y Cynghorydd **L.M. Stephens** |

**18. PENODI CYNRYCHIOLWYR I GYRFF ALLANOL**

Bu'r Cyngor yn ystyried enwebiadau a gafwyd o ran penodi aelodau i wasanaethu ar y cyrff allanol y nodwyd isod.

**PENDERFYNWYD ar y penodiadau canlynol:**

| Y Corff Allanol | Cynrychiolwyr a Benodwyd |
|---|---|
| **Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog** | Y Cynghorydd **G. Davies**<br>Y Cynghorydd **A. James** |
| **Panel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys** | Y Cynghorydd **J.K. Howell**<br>Y Cynghorydd **T.J. Jones**<br>Y Cynghorydd **E. Morgan** |
| **Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru** | Y Cynghorydd **J.M. Charles**<br>Y Cynghorydd **D.C. Evans**<br>Y Cynghorydd **K. Madge**<br>Y Cynghorydd **E.G. Thomas**<br>Y Cynghorydd **D.E. Williams** |

________________________ ________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**


Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales

# Y Cyngor Sir
# 19 Gorffenaf 2017

## Tîm Rheoli Corfforaethol - penodiadau
## Penodi swyddi Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant, & Chyfarwyddwr Adfywio a Pholisi

**Yr Argymhellion / Penderfyniadau allweddol sydd eu hangen:**

1. Bod y Cyngor Sir yn cymeradwyo'r Proffil Swydd a Manyleb y Person ar gyfer y swyddi Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant a Chyfarwyddwr Adfywio a pholisi.

2. Bod y Cyngor Sir yn cymeradwyo'r Hysbysebau Swyddi atodedig er mwyn sicrhau y gellir hysbysebu'r swydd hon yn gyhoeddus yn unol â gofynion Reoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) (Diwygio) 2014.

**Rhesymau:**

- Er mwyn cydymffurfio â Chyfansoddiad y Cyngor, ac i gydymffurfio â diwygiadau i Reoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) (Diwygio) 2014, fel y mae wedi'i nodi yn yr adroddiad cryno amgaeëdig.

| | |
|---|---|
| **Ymgynghorwyd â'r pwyllgor craffu perthnasol:** | **AMHERTHNASOL** |
| **Pwyllgor craffu a'r dyddiad:** | **AMHERTHNASOL** |

| | |
|---|---|
| **Angen i'r Bwrdd Gweithredol wneud penderfyniad:** | **NA** |
| **Angen i'r Cyngor wneud penderfyniad:** | **OES** |

**Aelodau'r Bwrdd Gweithredol sy'n gyfrifol am y Portffolio:**

| | |
|---|---|
| **Y Cyng. Mair Stephens** | **Y Cyng. Linda Evans** |
| **Y Cyng. David Jenkins** | **y Cyng. Jane Tremlett** |
| **Y Cyng. Hazel Evans** | **Y Cyng. Emlyn Dole** |
| **Y Cyng. Glynog Davies** | |
| **Y Cyng. Peter Hughes-Griffiths** | |
| **Y Cyng. Cefin Campbell** | |

| **Y Gyfarwyddiaeth:** Prif Weithredwr | **Swydd:** | **Rhifau Ffôn / Cyfeiriadau Ebost:** |
|---|---|---|
| **Awdur yr Adroddiad:** Paul Thomas | Prif Weithredwr Cynorthwyol ( Rheoli Pobl) | 01267 246123 PRThomas@sirgar.gov.uk |

EXECUTIVE SUMMARY

# County Council
# Date: 19th July 2017

## CORPORATE MANAGEMENT TEAM APPOINTMENTS: Director of Education and Children's Services & Director of Regeneration and Policy

**Director of Education & Children's Services**

Following a previous recruitment exercise, which elicited only 2 applications, the Authority's Shortlisting Panel decided not to proceed to full appointment of a permanent Director of Education & Children's Services. Interim arrangements were agreed for the Head of Education & Children's Services, Gareth Morgans to act up to Director of Education & Children's Services pending a further recruitment exercise towards the end of the 16/17 academic year.

The post of Director of Education & Children's Services is a Chief Officer post and any recruitment to such a post is governed by the Local Authorities (Standing Orders) (Wales) (Amendment) Regulations 2014. This is reflected in the Authority's Pay Policy for 2017/2018.

The Regulations require that a "relevant body" ie the County Council:

"draw up a statement specifying—

(i)the duties of the officer concerned, and

(ii)any qualifications or qualities to be sought in the person to be appointed;

(b)make arrangements for the post to be publicly advertised in such a way as is likely to bring it to the attention of persons who are qualified to apply for it; and

(c)make arrangements for a copy of the statement mentioned in paragraph (a) to be sent to any person on request."

As this post attracts a salary of £100,000 or more, it must be publicly advertised. The only exception to this requirement being where the appointment is being made for a period of up to 12 months.

For Members information, in terms of an appointment to the post, an Appointments Panel (A) of 16 Councillors will be brought together as part of the recruitment and final decision making process.

**Director of Regeneration & Policy**

In May 2015, a report was presented to County Council that set out a proposal for the realignment of the Authority's Senior Management Team. As part of those proposals, a new post of Assistant Chief Executive (Regeneration & Policy) was created. However, since this time, this post has grown significantly to include additional responsibilities including the authority's Translation Unit and key


AILGYLCHWCH OS GWELWCH YN DDA – PLEASE RECYCLE

elements of the Corporate Property function.

In addition to this, members will be aware that the biggest ever investment for south west Wales, worth around £1.3. billion, has been secured following the approval of the ground-breaking Swansea Bay City Deal, and we are one of four local authorities that will transform the economic landscape of the area, boost the local economy by £1.8 billion, and generate almost 10,000 new jobs over the next 15 years. Eleven major projects will now get underway, delivering world-class facilities in the fields of energy, smart manufacturing, innovation and life science, with major investment in the region's digital infrastructure and workforce skills and talent underpinning each. This Council will be directly responsible for leading and managing the administration and compliance of projects worth £241m.

Compliance with the Council Constitution.

The General Scheme of Delegation (GSD) allows me, as Chief Executive, to determine all matters relating to Staff, Structures, Employment, Conditions of Service in accordance with the National and Local Conditions of Service, policies and procedures. Specifically, the GSD allows me to approve the deletion of posts or the creation of new posts, and as part of my responsibilities as Head of Paid service, I have the responsibility amongst other things for the numbers and grades of staff required by the Council to discharge its functions. (Section 4, local Government & Housing Act 1989). The recommendations contained within this report are in full compliance with the Council's Constitution.

Paragraph 1.13 of Part 3.2 Functions/Delegation, states that "It shall always be open to an officer to consult an Executive Board Member, a Committee, or its Chair or Vice-chair before the exercise of the delegated powers".

In light of the above, I propose to create a post of Director of Regeneration & Policy to drive and support the work of the Joint Committee to progress the City Deal. This includes the development of 5 case business models for the respective projects and the development of an assurance framework and implementation plan etc.

The post of Director of Regeneration & Policy will replace, and is not additional to, the current post of Assistant Chief Executive (Regeneration & Policy), and as I do not intend replacing the Assistant Chief Executive (Regeneration & Policy) post, this post will now be deemed redundant, and due statutory process will need to be followed.

As members will be aware, every Employer has a legal obligation to identify Suitable Alternative Employment for staff who are at risk of redundancy, and where it is available, and the individual is suitable to undertake the prescribed duties, then the Employer has a duty to offer it. In this instance that decision would need to be taken by Appointments Panel 'A'.

Were we not to offer suitable alternative employment when identified, then any redundancy could be an 'unfair dismissal'.

**Recommendation:**

1. That County Council endorse the enclosed Job Profile and Personal Specifications for both the posts of Director of Education & Children's Services, and the Director of Regeneration and Policy. (Appendices 1 & 2)

2. That County Council endorses the enclosed Job Adverts to allow the both posts to be publicly advertised as required by the Local Authorities (Standing Orders)(Wales) (Amendment) Regulations 2014. (Appendices 3 & 4)

| | |
|---|---|
| **DETAILED REPORT ATTACHED?** | **No, however the following documents are attached as appendices:**<br>• Relevant Job Profiles and Personal Specification<br>• Relevant Job Advertisements |

## IMPLICATIONS

**I confirm that other than those implications which have been agreed with the appropriate Directors / Heads of Service and are referred to in detail below, there are no other implications associated with this report.**

**Signed: Paul Thomas Assistant Chief Executive**

| Policy, Crime & Disorder and Equalities | Legal | Finance | ICT | Risk Management Issues | Staffing Implications | Physical Assets |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **YES** | **YES** | **YES** | **NONE** | **YES** | **YES** | **NONE** |

**1. Policy, Crime & Disorder and Equalities –** In accordance with the Council's Constitution and Policy Framework.

**2. Legal –** As above, and also in accordance with the revisions to the Local Authorities (Standing Orders)(Wales) (Amendment) Regulations 2014

**3. Finance –** These posts are within the County Council approved budget.

**5. Risk Management –** Failure to make provision to discharge the functions contained within this departmental portfolio, efficiently and effectively would place the authority at risk.

**6. Staffing Implications –** In accordance with the Council's Constitution and Policy Framework.

## CONSULTATIONS


AILGYLCHWCH OS GWELWCH YN DDA – PLEASE RECYCLE

**I confirm that the appropriate consultations have taken in place and the outcomes are as detailed below:**

**Signed: Paul Thomas, Assistant Chief Executive ( People Management & Performance)**

**1.Executive Board**
**2.Opposition Spokesperson Group**
**3.All political Groups**
**4.Corporate Management Team**
**5.Scrutiny Committee –** N/A
**6.Local Member(s) –** N/A
**7.Community / Town Council –** N/A
**8.Relevant Partners –** N/A
**9.Staff Side Representatives and other Organisations –** N/A

**Section 100D Local Government Act, 1972 – Access to Information**
**List of Background Papers used in the preparation of this report:**

1. Local Authorities (Standing Orders)(Wales) (Amendment) Regulations 2014.
2. Pay Policy

| Title of Document | File Ref No. / Locations that the papers are available for public inspection |
|---|---|
| | |

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

# PROFFIL SWYDD

| | | | |
|---|---|---|---|
| **TEITL Y SWYDD:** | Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant | **RHIF Y SWYDD:** | 001891 |
| **ADRAN:** | Yr Adran Addysg a Phlant | **GRADD:** | Prif Swyddog (C.O.) |
| **IS-ADRAN / ADAIN:** | | | |
| **YN ATEBOL I:** | Y Prif Weithredwr | **YN GYFRIFOL AM:** | Pennaeth y Gwasanaethau Addysg<br>Pennaeth y Gwasanaethau Plant<br>Pennaeth Rhaglenni Dysgwyr<br>Pennaeth Effeithiolrwydd Ysgolion<br>Rheolwr Datblygu Strategol<br>Rheolwr Gwasanaethau Moderneiddio |

**SIART TREFNIADAETH:** GWELER Y SIART AMGAEEDIG

**PRIF DDIBEN Y SWYDD:**

- Cynorthwyo'r Prif Weithredwr â'r gwaith cyffredinol o reoli'r Cyngor yn strategol er mwyn sicrhau y cyflawnir prif amcanion a strategaethau'r Cyngor.
- Ymgymryd â rôl y Prif Swyddog Addysg statudol.
- Cyfrannu at reolaeth gorfforaethol y Cyngor, gan fod yn aelod o'r Tîm Rheoli Corfforaethol, drwy arwain ar y materion a glustnodwyd fel rhan o bortffolio corfforaethol y swydd.
- Arwain strategaethau i hyrwyddo a chynnal safonau uchel mewn Addysg ym mhob lleoliad i blant a phobl ifanc, a gwella addysg a sgiliau i'r holl blant a phobl ifanc yn Sir Gaerfyrddin.
- Sicrhau bod trefniadau clir ac effeithiol ar waith i amddiffyn plant a phobl ifanc rhag niwed.
- Ysgwyddo'r cyfrifoldeb cyffredinol am arwain a phennu, monitro a rheoli cyllidebau ac

adnoddau y gwahanol wasanaethau sy'n rhan o'r gyfarwyddiaeth.

- Arwain a rhoi cyfarwyddyd clir i holl staff y gyfarwyddiaeth.

**Y PRIF GYFRIFOLDEBAU:**

1. Rhoi arweiniad a chyfeiriad strategol clir ac amlwg sy'n ysgogi gwaith tîm, a bod hynny yn ei dro'n arwain at lefelau uchel o ymrwymiad a darparu gwasanaethau ymysg rheolwyr a gweithwyr er mwyn cyflawni safonau addysgol uchel.

2. Bod yn ben-ymgynghorydd i'r Prif Weithredwr ac i'r Bwrdd Gweithredol ynghylch y prif faterion a strategaethau sy'n berthnasol i amrywiol bortffolios gwasanaeth y gyfarwyddiaeth, gan sicrhau bod cefnogaeth gorfforaethol a gwleidyddol iddynt er mwyn gofalu y ceir y canlyniadau gorau posibl i ddefnyddwyr y gwasanaethau.

3. Cyfrannu at ddatblygu a gweithredu'n effeithiol y Strategaeth Gymunedol Integredig, y Strategaeth Gorfforaethol, a'r Cynllun Gwella drwy weithio'n agos gyda'r Prif Weithredwr a'r Tîm Rheoli Corfforaethol, gan ymgynghori ag Aelodau'r Bwrdd Gweithredol a'r Arweinydd, er mwyn gwireddu deilliannau go iawn.

4. Cyflawni rôl statudol y Cyfarwyddwr Arweiniol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc, gan weithredu fel hyrwyddwr strategol ar gyfer plant.

5. Cydweithio'n agos ac yn effeithiol â Chyfarwyddwr statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol i sicrhau y gwneir darpariaeth ddigonol er mwyn sicrhau diogelwch a llesiant plant y sir.

6. Cynorthwyo'r Aelod Arweiniol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc i gyflawni ei gyfrifoldebau'n effeithiol.

7. Darparu arweiniad a gweledigaeth i'r Adran Addysg a Phlant yn ei chyfanrwydd, gan sicrhau bod holl weithgareddau'r adran yn integreiddio'n effeithiol, gyda golwg ar gyflawni ei hamcanion i wella deilliannau ar gyfer yr holl blant a phobl ifanc.

8. Craffu ar berfformiad Pennaeth y Gwasanaethau Addysg, ac ar berfformiad Pennaeth y Gwasanaethau Plant, gan sicrhau eu bod yn integreiddio ac yn cydweithio'n effeithiol er mwyn cyflawni'r ddau brif egwyddor o ddiogelu plant a gwella deilliannau addysgol i'r holl blant a phobl ifanc.

9. Sefydlu a datblygu'n barhaus weledigaeth strategol ar gyfer gwella gwasanaethau i blant a phobl ifanc a grwpiau o gleientiaid eraill. Sicrhau y darperir gwasanaethau o'r safon orau sy'n bosibl, ac yr ymgysylltir ac yr ymgynghorir yn llwyr â'n cwsmeriaid ynghylch darparu gwasanaethau.

10. Goruchwylio perfformiad yr Adran Addysg a Phlant, gan herio cyflawniad a hyrwyddo arloesedd gyda golwg ar sicrhau gwelliant parhaus, yn unol â chynllunio busnes corfforaethol a phrosesau rheoli perfformiad.

11. Datblygu diwylliant sy'n annog gweithio mewn partneriaeth â chyrff cyhoeddus eraill,

yn ogystal â'r rheiny yn y sector preifat a'r sector gwirfoddol er mwyn sicrhau y gwneir y gorau o bob cyfle a hynny er mwyn sicrhau'r budd mwyaf i'r Cyngor ac i drigolion Sir Gaerfyrddin.

12. Cyfrannu at gydweithio a gweithio rhanbarthol pellach i sicrhau gwelliannau ac arbedion effeithlonrwydd wrth gynllunio a darparu gwasanaethau a swyddogaethau proffesiynol i bobl Sir Gaerfyrddin.

13. Cydgysylltu rheolaeth ariannol, yn refeniw ac yn gyfalaf, ledled yr Adran Addysg a Phlant yn unol ag arferion corfforaethol sefydledig.

14. Dylanwadu a chyfrannu at ddatblygu a gweithredu'r agenda 'Trawsnewid i Wneud Cynnydd' (TIC) – sy'n berthnasol i'r Awdurdod cyfan, er mwyn i'r arloesi o ran datblygu a darparu gwasanaethau gynyddu bodlonrwydd y cwsmeriaid, dileu dyblygu a lleihau costau.

15. Arwain y portffolio gwasanaethau ac o bryd i'w gilydd themâu a phrosiectau sy'n pontio gwasanaethau ar ran y Tîm Rheoli Corfforaethol.

16. Hybu a meithrin diwylliant trefniadaethol y mae heriau, arloesi ac atebion creadigol yn rhan arferol ohono, gan gyfrannu'n gadarnhaol at enw da a delwedd y Cyngor o fod yn un o'r awdurdodau lleol sy'n cyrraedd y brig ac sy'n gyflogwr da, a hyrwyddo hynny'n flaenweithgar.

17. Sicrhau bod gan yr Adran gynllun datblygu / gweithlu cadarn ac effeithiol sy'n cyfrannu at Gynllun Gweithlu Strategol y Cynllun ac sy'n galluogi'r Adran i gyflawni'r safonau gwasanaeth gorau posibl gan sicrhau bod yr holl staff yn cael eu datblygu'n unol â hynny.

18. Hyrwyddo, datblygu a chynnal perthnasoedd gwaith effeithiol a blaengar gyda chydweithwyr, aelodau etholedig, adrannau llywodraeth ganolog, asiantaethau sy'n bartneriaid, a sefydliadau eraill i hyrwyddo cynllunio a darparu gwasanaethau'n effeithiol i blant a phobl ifanc.

19. Bod yn arweinydd strategol o ran datblygu a gweithredu'r Rhaglen Moderneiddio Addysg yn barhaus, Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg a pholisïau eraill.

**GOFYNION Y SWYDD:**

Mae'r Adran Addysg a Phlant yn adran fawr ac iddi nifer o agweddau, sy'n gyfrifol am ddarparu ystod eang o wasanaethau cymorth a datblygu i blant, pobl ifanc, a dinasyddion eraill ym mhob cwr o'r sir.

Ym mis Ebrill 2017, roedd gan yr Adran gyfanswm o oddeutu 5,600 o aelodau o staff ac roedd rhyw 1,800 o'r rhain yn athrawon. Mae'n gyfrifol am 12 o ysgolion uwchradd, 98 o ysgolion cynradd, 1 ysgol feithrin, 2 ysgol arbennig, 3 canolfannau ieuenctid, 3 canolfannau sgiliau sylfaenol, 2 canolfan adnoddau, 2 uned gofal seibiant a 2 unedau cyfeirio disgyblion .

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mae gan yr Adran gyllideb refeniw flynyddol gros o ryw £197 miliwn, y mae tua £109 miliwn ohoni yn cael ei ddirprwyo i ysgolion, a rhaglen gyfalaf flynyddol o hyd at £20 miliwn, y mae llawer ohoni'n gysylltiedig â'i Rhaglen Moderneiddio Addysg lwyddiannus. | | | |
| **PARATOWYD GAN:** | PRIF WEITHREDWR/PRIF WEITHREDWR CYNORTHWYOL (RHEOLI POBL A PHERFFORMIAD) | **DYDDIAD PARATOI:** | MEHEFIN 2017 |

# MANYLEB Y PERSON

| | | | |
|---|---|---|---|
| **TEITL Y SWYDD:** | Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant | **RHIF Y SWYDD:** | 001891 |
| **ADRAN:** | Yr Adran Addysg a Phlant | **GRADD:** | Prif Swyddog (C.O.) |
| **IS-ADRAN / ADAIN:** | | | |

| **CYMWYSTERAU / HYFFORDDIANT GALWEDIGAETHOL /** | **HANFODOL** | **DYMUNOL** | **DULL ASESU** |
|---|---|---|---|
| Yn meddu ar radd neu gymhwyster cyfwerth mewn pwnc perthnasol neu brofiad cyfatebol. | ✓ | | Ffurflen Gais / Tystysgrifau |
| Cymhwyster rheoli perthnasol neu ddatblygiad proffesiynol parhaus pendant. | ✓ | | Ffurflen Gais a Thystysgrifau |
| **<u>GWYBODAETH A PHROFIAD</u>** | | | |
| Ymwybyddiaeth dda o'r wybodaeth dechnegol, broffesiynol a deddfwriaethol ar draws meysydd penodol y gyfarwyddiaeth. | ✓ | | Ffurflen gais/ Cyflwyniad/Cyfweliad |
| Gwybodaeth drylwyr ynghylch cyd-destun lleol, rhanbarthol a chenedlaethol y Cyngor er mwyn datblygu a gweithredu strategaethau, polisïau a safonau perthnasol. | ✓ | | " |
| Dealltwriaeth glir o agenda'r Llywodraeth ar gyfer Llywodraeth Leol, yng Nghymru ac yn y Deyrnas Unedig. | ✓ | | " |
| Profiad sylweddol a diweddar o reoli llwyddiannus ar lefel uwch gan ymdrin ag ystod amrywiol ac allweddol o Wasanaethau Sector Cyhoeddus neu Breifat uchel eu proffil. | ✓ | | " |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| Tystiolaeth o arwain newid sylweddol mewn trefniadaeth a gwasanaethau a rheoli'n llwyddiannus y goblygiadau o ran rheoli pobl. | ✓ | | | |
| **<u>GALLUOEDD</u>** | | | | |
| **Penderfynu ynghylch Camau a'u Rhoi ar Waith**<br>Gwneud penderfyniadau cyflym a chlir a allai olygu gwneud dewisiadau anodd neu gymryd risgiau ystyriol; Cymryd cyfrifoldeb dros gamau gweithredu, prosiectau a phobl; Bod yn flaengar ac yn hyderus a gweithio heb gyfarwyddyd; Ysgogi a chreu gweithgaredd. | ✓ | | | Ffurflen Gais / Cyflwyniad / Cyfweliad / Canolfan Asesu |
| **Arwain a Goruchwylio**<br>Rhoi arweiniad clir i eraill; Pennu safonau ymddygiad priodol; Dirprwyo gwaith yn briodol ac yn deg; Ysgogi a grymuso eraill; Rhoi cyfleoedd i staff ddatblygu a chael hyfforddiant personol; Recriwtio staff o'r radd flaenaf. | ✓ | | | Ffurflen Gais / Cyflwyniad / Cyfweliad / Canolfan Asesu |
| **Glynu wrth Egwyddorion a Gwerthoedd**<br>Cynnal safonau moesol a gwerthoedd; Arddangos gonestrwydd; Hyrwyddo ac amddiffyn cyfleoedd cyfartal, adeiladu timoedd amrywiol; Hybu cyfrifoldeb trefniadol ac unigol tuag at y gymuned a'r amgylchedd. | ✓ | | | Ffurflen Gais / Cyflwyniad / Cyfweliad / Canolfan Asesu |
| **Darbwyllo a Dylanwadu**<br>Gwneud argraff bersonol gref ar eraill; Ennill dealltwriaeth glir ac ymrwymiad gan eraill drwy ddarbwyllo, argyhoeddi a chyd-drafod; Hybu syniadau ar eich rhan eich hun neu ar ran eraill; Defnyddio prosesau gwleidyddol yn effeithiol i ddylanwadu ar eraill ac i'w darbwyllo. | ✓ | | | Ffurflen Gais / Cyflwyniad / Cyfweliad / Canolfan Asesu |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cyflwyno a Chyfathrebu**<br>Siarad yn glir ac yn rhugl; Mynegi barn, gwybodaeth a phwyntiau allweddol dadl yn glir; Gwneud cyflwyniadau a siarad yn gyhoeddus yn fedrus ac yn hyderus; Ymateb yn gyflym i anghenion cynulleidfa ac i'w hymatebion a'u hadborth; Cyfleu hygrededd. | ✓ | | | Ffurflen Gais / Cyflwyniad / Cyfweliad / Canolfan Asesu |
| **Llunio Strategaethau a Chysyniadau**<br>Gweithio'n strategol i wireddu amcanion trefniadol; Pennu a datblygu strategaethau; Clustnodi a threfnu'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni tasgau; Monitro perfformiad yn unol â dyddiadau cau a cherrig milltir. | ✓ | | | Ffurflen Gais / Cyflwyniad / Cyfweliad / Canolfan Asesu |
| **Addasu ac Ymateb i Newid**<br>Addasu i amgylchiadau newidiol; Derbyn syniadau newydd a mentrau ar gyfer newid; Addasu arddull ryngbersonol yn ôl yr hyn sy'n addas i wahanol bobl neu sefyllfaoedd; Dangos parch a sensitifrwydd tuag at wahaniaethau diwylliannol a chrefyddol; Ymdrin ag amwysedd gan wneud defnydd cadarnhaol o'r cyfleoedd y mae hynny'n ei gyflwyno. | ✓ | | | Ffurflen Gais / Cyflwyniad / Cyfweliad / Canolfan Asesu |
| **<u>SGILIAU PERSONOL</u>** | | | | |
| Rheoli materion sensitif a gwleidyddol yn hyderus gan weithio'n ddiplomataidd i gyflawni canlyniadau positif ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth. | ✓ | | | Ffurflen Gais / Cyflwyniad / Cyfweliad / Canolfan Asesu |
| Y gallu i ennyn ymddiriedaeth, didwylledd, a chydraddoldeb drwy ryngweithio â phobl o amrywiol gefndiroedd cymdeithasol, diwylliannol, economaidd, ac addysgol. | ✓ | | | Ffurflen Gais / Cyflwyniad / Cyfweliad / Canolfan Asesu |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Arddangos sgiliau rhyngbersonol gwych sy'n eich galluogi i feithrin cysylltiadau cadarnhaol gyda rhanddeiliaid/partneriaid perthnasol (gan gynnwys Undebau Llafur) | ✓ | | | Ffurflen Gais / Cyflwyniad / Cyfweliad / Canolfan Asesu |
| Meddu ar feddylfryd strategol tuag at lunio gwasanaethau sy'n rhoi sylw i flaenoriaethau corfforaethol ac sy'n integreiddio â gweithgareddau cyflenwol ar draws y Cyngor ac yn gweddu iddynt. | ✓ | | | Ffurflen Gais / Cyflwyniad / Cyfweliad / Canolfan Asesu |
| Y gallu i ddadansoddi gwybodaeth ariannol gan ddefnyddio'r wybodaeth yn effeithiol i sicrhau rheolaeth ac atebolrwydd effeithlon o ran y gyllideb. | ✓ | | | Ffurflen Gais / Cyflwyniad / Cyfweliad / Canolfan Asesu |

**Gwerthoedd Craidd / Cydraddoldeb ac Amrywiaeth**

Disgwylir i'r holl weithwyr gynnal gwerthoedd craidd yr Awdurdod a glynu wrth egwyddorion Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yr Awdurdod neu, os cânt eu cyflogi mewn ysgol, Bolisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yr ysgol, fel sy'n briodol i lefel atebolrwydd a chyfrifoldeb y swydd yn y sefydliad.

**Sgiliau Cyfathrebu:-**

**Noder:** I asesu'r lefel ofynnol o ran sgiliau iaith cyfeiriwch at y ddolen ganlynol: Asesiad a chanllawiau Sgiliau Iaith - Gweler Pwynt 5

***Nodwch lefel rhwng 1 a 5 ar gyfer sgiliau llafar a sgiliau ysgrifennu***

| Iaith | Sgiliau Llafar | Sgiliau Ysgrifennu |
|---|---|---|
| Cymraeg | 5 | 5 |
| Saesneg | 5 | 5 |
| Iaith Arall (nodwch) | | |

**AMGYLCHIADAU ARBENNIG:**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Swydd dan Gyfyngiadau Gwleidyddol:<br>(Sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddeiliad y swydd fod yn wleidyddol ddiduedd) | Ydy | ✓ | Nac ydy | |

*Os bernir bod gwiriad o gofnodion troseddol yn berthnasol i'r swydd hon, rhaid nodi'r math o wiriad a'r rheswm dros ei gynnal isod.*

*A fyddech cystal â llenwi pob un o'r tair adran drwy roi tic wrth y math o ddatgeliad sy'n ofynnol a'r math o weithlu gan nodi'r rheswm dros y gwirio.*

*Os bydd angen cymorth arnoch i gwblhau'r adran hon edrychwch ar y canllawiau sydd ar gael yma: http://brian/worklife/hr/SitePages/Operational%20HR%20Team.aspx neu gofynnwch i'ch Swyddog Adnoddau Dynol am gyngor*.

**Adran A – y math o ddatgeliad**

| | |
|---|---|
| DATGELIAD SAFONOL | |
| DATGELIAD MANWL | ✓ |
| DATGELIAD MANWL GAN WIRIO'R RHESTR WAHARDD | |

**Adran B – y math o weithlu**

| | |
|---|---|
| Y GWEITHLU PLANT | ✓ |
| Y GWEITHLU OEDOLION | |
| Y GWEITHLU PLANT AC OEDOLION | |
| GWEITHLU ARALL | |

**Y RHESWM:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **PARATOWYD GAN:** | Y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad) | **DYDDIAD PARATOI:** | Mehefin 2017 |

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

EICH CYNGOR **arleinamdani**
www.sirgar.llyw.cymru

YOUR COUNCIL **doitonline**
www.carmarthenshire.gov.wales

# Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant

**Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn Awdurdod Lleol uchel ei berfformiad, bywiog a blaengar sy'n ceisio gwella'n barhaus ac mae wedi ymrwymo i gynnal ei enw rhagorol am gyflwyno gwasanaethau o'r radd flaenaf.**
**Rydym bellach am recriwtio'r uwch-reolwr canlynol:**

## Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant
Hyd at £123,218

**Ai chi yw'r ymgeisydd cywir ar gyfer y swydd uchod?**
Disgwylir ichi fod yn hyderus, yn gredadwy ac yn ddylanwadol o'r cychwyn cyntaf. Dylech fod yn eich elfen yn arloesi i lwyddo, gan hyrwyddo a darparu newid cynyddol er mwyn cyflawni'r weledigaeth a'r disgwyliadau mawr sydd gennym ar gyfer ein Sir. Yn bwysicaf oll, byddwch yn gwybod beth yw gwasanaethau o'r radd flaenaf a sut i helpu eich staff i gyflawni'r safonau hyn o fewn amgylchedd sy'n gofyn llawer. Bydd yn ofynnol i chi weithio'n hyderus drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Gellir darparu cymorth wedi i chi gael eich penodi er mwyn cyrraedd y lefel ofynnol.

Os ydych yn credu mai chi yw'r ymgeisydd rhagorol yr ydym yn chwilio amdano, byddem yn falch iawn o glywed gennych! Rydym yn benodol yn croesawu ceisiadau gan ferched ac ymgeiswyr o'r lleiafrifoedd ethnig, gan nad yw'r grwpiau hyn yn cael eu cynrychioli'n ddigonol ar hyn o bryd ymhlith rheolwyr Cyngor Sir Caerfyrddin.

**I gael sgwrs anffurfiol am y swydd cysylltwch â Mark James, Prif Weithredwr, Cyngor Sir Caerfyrddin ar 01267 224110.**

## I gael pecyn ymgeisio ewch i: www.sirgar.llyw.cymru

## Dyddiad Cau: ?? ???? 2017

Ar ôl llenwi'r ffurflen gais, dylid ei hanfon at: Paul Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad), Adeilad 14, Parc Dewi Sant, Heol Ffynnon Job, Caerfyrddin, SA31 3HB.

Rydym yn gyflogwr cyfle cyfartal ac yn croesawu ceisiadau wrth bawb. Gwneir pob penodiad ar sail teilyngdod.

We are an equal opportunities employer and we welcome applications from all. All appointments will be made on merit.

# Director of Education and Children's Services

**Carmarthenshire County Council is a high performing, vibrant and forward-thinking local authority that is constantly looking to improve, and is committed to maintaining its excellent reputation for delivering first class services. We are now looking to recruit to the following senior management position:**

## Director of Education and Children's Services
Up to £123,218

**Are you the right Person for the above post?**
Confident, credible and influential from the outset, you will thrive on innovating for success, promoting and delivering progressive change to achieve our adopted vision and high expectations for our County. Crucially, you will know what first class services look like and how to help your staff achieve these standards within a demanding environment.
You will be required to work confidently through the medium of Welsh and English. Support can be provided on appointment to reach the required level.

If you believe that you are the outstanding candidate that we are looking for, then we would really like to hear from you! We particularly welcome female applicants and those from an ethnic minority, as they are currently under-represented within Carmarthenshire County Council at management level.

**For an informal discussion about the role, please contact Mark James, Chief Executive, Carmarthenshire County Council on 01267 224110.**

## For an application pack visit: www.carmarthenshire.gov.wales

## Closing Date: ?? ???? 2017

Application forms should be returned to: Paul Thomas, Assistant Chief Executive, (People Management and Performance), Building 14, St David's Park, Job's Well Road, Carmarthen, SA31 3HB.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

hyderus o ran anabledd CYFLOGWR

disability confident EMPLOYER

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

# PROFFIL SWYDD

| | | | |
|---|---|---|---|
| **TEITL Y SWYDD:** | Cyfarwyddwr Adfywio a Pholisi | **RHIF Y SWYDD:** | |
| **ADRAN:** | | **GRADD:** | Prif Swyddog (C.O.) |
| **IS-ADRAN / ADAIN:** | | | |
| **YN ATEBOL I:** | Y Prif Weithredwr | **YN GYFRIFOL AM:** Rheolwr Marchnata a'r Cyfryngau<br>Rheolwr Cymunedau a Diogelu<br>Rheolwr y Gwasanaethau Etholiadol<br>Rheolwr Cofrestru Sifil<br>Rheolwr Rhaglen TIC<br>Rheolwr Cymorth Gweithredol<br>Rheolwr Cymorth Busnes | Rheolwr Datblygu Economaidd x 2<br>Rheolwr Polisi Corfforaethol a Phartneriaeth<br>Rheolwr Diogelwch Cymunedol<br>Rheolwr Eiddo a Phrosiectau Mawr<br>Rheolwr Prosiect (Prosiect Llesâd Sir Gaerfyrddin) |

**SIART TREFNIADAETH:** GWELER Y SIART AMGAEEDIG

**PRIF DDIBEN Y SWYDD:**

- Cynorthwyo'r Prif Weithredwr â'r gwaith cyffredinol o reoli'r Cyngor yn strategol er mwyn sicrhau y cyflawnir prif amcanion a strategaethau'r Cyngor.

- Cyfrannu at reolaeth gorfforaethol y Cyngor, gan fod yn aelod o'r Tîm Rheoli Corfforaethol, drwy arwain ar y materion a glustnodwyd fel rhan o bortffolio corfforaethol y swydd.

- Arwain y gwaith o ddatblygu a gweithredu Strategaeth Adfywio'r Awdurdod a'i rôl yng nghyd-destun y Dinas-ranbarth gan gynnwys creu'r Pentref Llesiant a Gwyddorau Bywyd.

- Cyflawni rôl Uwch-swyddog Risg Gwybodaeth yr Awdurdod gan gydymffurfio â fframwaith diogeledd gwybodaeth Llywodraeth Ei Mawrhydi.

- Bod yn gyfrifol am reoli gwaith gweinyddu prosesau etholiadol yr Awdurdod.

- Ysgwyddo'r cyfrifoldeb cyffredinol am arwain a phennu, monitro a rheoli cyllidebau ac adnoddau y gwahanol wasanaethau sy'n rhan o'r gyfarwyddiaeth.

- Arwain a rhoi cyfarwyddyd clir i holl staff y gyfarwyddiaeth.

**Y PRIF GYFRIFOLDEBAU:**

- Rhoi arweiniad a chyfeiriad strategol clir ac amlwg sy'n ysgogi gwaith tîm, a bod hynny yn ei dro'n arwain at lefelau uchel o ymrwymiad a darparu gwasanaethau ymysg rheolwyr a gweithwyr er mwyn cyflawni safonau addysgol uchel.

- Bod yn ben-ymgynghorydd i'r Prif Weithredwr ac i'r Bwrdd Gweithredol ynghylch y prif faterion a strategaethau sy'n berthnasol i amrywiol bortffolios gwasanaeth y gyfarwyddiaeth, gan sicrhau bod cefnogaeth gorfforaethol a gwleidyddol iddynt er mwyn gofalu y ceir y canlyniadau gorau posibl i ddefnyddwyr y gwasanaethau.

- Cyfrannu at ddatblygu a gweithredu'n effeithiol y Strategaeth Gymunedol Integredig, y Strategaeth Gorfforaethol, a'r Cynllun Gwella drwy weithio'n agos gyda'r Prif Weithredwr a'r Tîm Rheoli Corfforaethol, gan ymgynghori ag Aelodau'r Bwrdd Gweithredol a'r Arweinydd, er mwyn gwireddu deilliannau go iawn.

- Datblygu diwylliant sy'n annog gweithio mewn partneriaeth â chyrff cyhoeddus eraill, yn ogystal â'r rheiny yn y sector preifat a'r sector gwirfoddol er mwyn sicrhau y gwneir y gorau o bob cyfle a hynny er mwyn sicrhau'r budd mwyaf i'r Cyngor ac i drigolion Sir Gaerfyrddin.

- Hybu a meithrin diwylliant trefniadaethol y mae heriau, arloesi ac atebion creadigol yn rhan arferol ohono, gan gyfrannu'n gadarnhaol at enw da a delwedd y Cyngor o fod yn un o'r awdurdodau lleol sy'n cyrraedd y brig ac sy'n gyflogwr da, a hyrwyddo hynny'n flaenweithgar.

- Sicrhau y darperir gwasanaethau o'r safon orau sy'n bosibl, ac yr ymgysylltir ac yr ymgynghorir yn llwyr â'n cwsmeriaid ynghylch darparu gwasanaethau.

- Sicrhau bod gan yr Adran gynllun datblygu / gweithlu cadarn ac effeithiol sy'n cyfrannu at Gynllun Gweithlu Strategol y Cynllun ac sy'n galluogi'r Adran i gyflawni'r safonau gwasanaeth gorau posibl gan sicrhau bod yr holl staff yn cael eu datblygu'n unol â hynny.

- Cefnogi cyflawni Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor a gweledigaeth yr Awdurdod trwy weithio'n agos â'r Prif Weithredwr, y Tîm Rheoli Corfforaethol, yr Aelodau o'r Bwrdd Gweithredol a'r Arweinydd ar ystod eang o faterion sy'n gysylltiedig â chwsmeriaid a pholisïau corfforaethol.

- Arwain y ffordd a datblygu perthynas waith agos â'r gymuned fusnes leol, asiantaethau, partneriaid, yr awdurdodau lleol cyfagos a grwpiau lleol eraill er mwyn hybu a gwella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol preswylwyr a busnesau Sir Gaerfyrddin.

- Bod yn gyfrifol am wneud y defnydd gorau posibl o asedau tir y Cyngor (yn y portffolio economaidd/masnachol) gan edrych ar y sefyllfa o safbwynt strategol/masnachol i sicrhau y rheolir y portffolio mewn modd sy'n cyrraedd nodau Datblygu Economaidd y Cyngor.

- Bod yn gyfrifol am waith corfforaethol cyffredinol o arwain a rheoli'r Is-adran Datblygu Economaidd a'r strategaethau cysylltiedig, o ran darparu gwell perfformiad ar gyfer ei gwsmeriaid.

- Cynorthwyo'r Gyfarwyddiaeth wrth iddi baratoi at arolygiadau allanol, a meithrin diwylliant dysgu er mwyn sicrhau bod unrhyw gamau gweithredu gofynnol sy'n deillio o'r arolygiadau yn cael eu rhoi ar waith a'u monitro gan gadw at yr amserlenni y cytunwyd arnynt.

- Bod yn gyfrifol am roi Safonau'r Gymraeg ar waith, a sicrhau y gwireddir disgwyliadau Mesur y Gymraeg (2011).

- Gweithio mewn partneriaeth, yn y Cyngor a'r tu allan iddo, a chynrychioli'r Cyngor, a chreu cyfleoedd i wella perfformiad, enw da a delwedd allanol y Cyngor ymysg rhanddeiliaid lleol ac eraill.

- Datblygu partneriaethau yn seiliedig ar wasanaethau allanol; cydlynu a goruchwylio'r gwaith o gyflawni rhaglenni cyllido adfywio ar draws yr holl bartneriaethau hynny.

- Fel aelod o'r Tîm Rheoli Corfforaethol, bydd deiliad y swydd yn gyfrifol am gynorthwyo'r Prif Weithredwr a'r Bwrdd Gweithredol i ddatblygu a gweithredu strategaethau sy'n gwella'r holl wasanaethau a gweithgareddau yn barhaus gan barhau i hoelio'r sylw ar gwsmeriaid, ac sydd wrth wraidd newid diwylliant.

- Rheoli Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor ynghyd â'r broses o ddatblygu strategaethau a pholisïau a'u rhoi ar waith a hynny drwy gynghori arweinwyr gwleidyddol y Cyngor, rhoi camau gweithredu priodol ar waith a sicrhau yr ymgorfforir y rhain mewn cynlluniau a rhaglenni a gaiff eu hadolygu a'u diweddaru er mwyn darparu ar gyfer anghenion a blaenoriaethau sy'n newid. a sicrhau bod y Cyngor yn cyfrannu'n effeithiol o ran gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn Sir Gaerfyrddin.

- Bod yn gyfrifol am hyrwyddo delwedd gadarnhaol ac enw da'r Cygnor yn y gymuned drwy ddarparu swyddfa'r wasg a marchnata sy'n uned broffesiynol o'r radd flaenaf sy'n hoelio'r sylw ar gwsmeriaid, ac yn cysylltu â'r cyfryngau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i gyd yn unol â hynny.

- Hyrwyddo dealltwriaeth o werthoedd, blaenoriaethau, amcanion, polisïau a gwasanaethau'r Cyngor ymhlith y cyhoedd drwy sicrhau cyfathrebu ac ymgynghori priodol ac effeithiol â'r gymuned ehangach.

- Bod yn gyfrifol am sicrhau bod yr Awdurdod yn rhoi gweledigaeth strategol ar waith o ran llywodraethu a defnyddio gwybodaeth yn y sefydliad a chyda phartneriaid.

- Bod yn gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth â chyfrifoldebau'r Awdurdod o dan Ddeddf Troseddau ac Anhrefn 1998 a sicrhau bod Diogelwch Cymunedol yn cael ei hyrwyddo'n effeithiol yn y sefydliad a chyda'n partneriaid.

- Creu cysylltiadau gwaith effeithiol â phobl allweddol mewn llywodraeth leol ac yn y llywodraeth genedlaethol, yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, ac mewn cyrff cyhoeddus, busnesau preifat a'r sector gwirfoddol, a chydweithio â phartneriaid strategol y Cyngor fel y bo hynny'n briodol.

- Bod yn gyfrifol am ddatblygu themâu arweiniol allweddol a'u rhoi ar waith. Y themâu hynny yw iaith, cydraddoldeb, datblygu cynaliadwy a chynhwysiad cymdeithasol.

- Yn rhinwedd bod yn Uwch-swyddog Rheoli Risg penodedig yr Awdurdod, rheoli risgiau diogeledd gwybodaeth a rhoi sylw dyledus i'r amddiffynfeydd a rhwymedigaethau statudol perthnasol, gan gynnwys Deddf Diogelu Data, Deddf Rhyddid Gwybodaeth, y Ddeddf Cyfrinachau Swyddogol, y Ddeddf Cydraddoldeb a Deddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu.

- Sicrhau bod fframweithiau rheoli perfformiad effeithiol ar waith yn yr Is-adran a bod y rhain yn hyrwyddo gwella gwasanaethau yn barhaus.

- Bod yn arweinydd amlwg gan hyrwyddo safonau uchel, heriau ac amgylchedd gwaith cadarnhaol ar gyfer y staff.

- Arwain datblygiad y gwasanaeth a chynllunio gweithlu'r is-adran.

- Hyrwyddo, datblygu a chynnal perthnasoedd gwaith effeithiol a blaengar gyda chydweithwyr, aelodau etholedig, adrannau llywodraeth ganolog, asiantaethau sy'n bartneriaid, a sefydliadau eraill i hyrwyddo cynllunio a darparu gwasanaethau'n effeithiol i blant a phobl ifanc.

**GOFYNION Y SWYDD:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mae'r Gyfarwyddiaeth Adfywio a Pholisi yn bortffolio amrywiol sy'n cyflogi tua 265 o aelodau o staff â chyllideb net sy'n fwy na £9 miliwn. | | | |
| **PARATOWYD GAN:** | Prif Weithredwr / Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad) | **DYDDIAD PARATOI:** | MEHEFIN 2017 |

# MANYLEB Y PERSON

| | | | |
|---|---|---|---|
| **TEITL Y SWYDD:** | Cyfarwyddwr Adfywio a Pholisi | **RHIF Y SWYDD:** | |
| **ADRAN:** | | **GRADD:** | Prif Swyddog (C.O.) |
| **IS-ADRAN / ADAIN:** | | | |

| **CYMWYSTERAU / HYFFORDDIANT GALWEDIGAETHOL /** | **HANFODOL** | **DYMUNOL** | **DULL ASESU** |
|---|---|---|---|
| Yn meddu ar radd neu gymhwyster cyfwerth mewn pwnc perthnasol neu brofiad cyfatebol. | ✓ | | Ffurflen Gais / Tystysgrifau |
| Cymhwyster rheoli perthnasol neu ddatblygiad proffesiynol parhaus pendant. | ✓ | | Ffurflen Gais a Thystysgrifau |
| **<u>GWYBODAETH A PHROFIAD</u>** | | | |
| Ymwybyddiaeth dda o'r wybodaeth dechnegol, broffesiynol a deddfwriaethol ar draws meysydd penodol y gyfarwyddiaeth. | ✓ | | Ffurflen Gais / Cyflwyniad / Cyfweliad |
| Gwybodaeth drylwyr ynghylch cyd-destun lleol, rhanbarthol a chenedlaethol y Cyngor er mwyn datblygu a gweithredu strategaethau, polisïau a safonau perthnasol. | ✓ | | " |
| Dealltwriaeth glir o agenda'r Llywodraeth ar gyfer Llywodraeth Leol, yng Nghymru ac yn y Deyrnas Unedig. | ✓ | | " |
| Gweithio mewn partneriaeth yn sylweddol ag ystod o gyrff mewnol | ✓ | | " |

| | | | |
|---|---|---|---|
| ac allanol i gyflawni amcanion cyffredin | | | |
| Hanes o ymdrin yn llwyddiannus â rhaglenni mawr a chymhleth yr UE neu rai a ariennir yn allanol ynghyd â'r strategaethau cydymffurfiaeth sy'n gysylltiedig â hynny | ✓ | | " |
| Dealltwriaeth drylwyr o Fesur y Gymraeg (2011) a chyfrifoldebau statudol yr Awdurdod Lleol sy'n gysylltiedig â hynny. | ✓ | | " |
| Profiad o reoli prosesau etholiadau perthnasol llywodraeth leol. | ✓ | | " |
| Dealltwriaeth drylwyr o egwyddorion allweddol Llywodraethu Gwybodaeth a rôl yr Uwch-swyddog Risg Gwybodaeth. | ✓ | | " |
| Profiad sylweddol a diweddar o reoli llwyddiannus ar lefel uwch gan ymdrin ag ystod amrywiol ac allweddol o Wasanaethau Sector Cyhoeddus neu Breifat uchel eu proffil. | ✓ | | " |
| Tystiolaeth o arwain newid sylweddol mewn trefniadaeth a gwasanaethau a rheoli'n llwyddiannus y goblygiadau o ran rheoli pobl. | ✓ | | " |
| **<u>GALLUOEDD</u>** | | | |
| **Penderfynu ynghylch Camau a'u Rhoi ar Waith**<br>Gwneud penderfyniadau cyflym a chlir a allai olygu gwneud dewisiadau anodd neu gymryd risgiau ystyriol; Cymryd cyfrifoldeb dros gamau gweithredu, prosiectau a phobl; Bod yn flaengar ac yn hyderus a gweithio heb | ✓ | | Ffurflen Gais / Cyflwyniad / Cyfweliad / Canolfan Asesu |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| gyfarwyddyd; Ysgogi a chreu gweithgaredd. | | | | |
| **Arwain a Goruchwylio**<br>Rhoi arweiniad clir i eraill; Pennu safonau ymddygiad priodol; Dirprwyo gwaith yn briodol ac yn deg; Ysgogi a grymuso eraill; Rhoi cyfleoedd i staff ddatblygu a chael hyfforddiant personol; Recriwtio staff o'r radd flaenaf. | ✓ | | | Ffurflen Gais / Cyflwyniad / Cyfweliad / Canolfan Asesu |
| **Glynu wrth Egwyddorion a Gwerthoedd**<br>Cynnal safonau moesol a gwerthoedd; Arddangos gonestrwydd; Hyrwyddo ac amddiffyn cyfleoedd cyfartal, adeiladu timoedd amrywiol; Hybu cyfrifoldeb trefniadol ac unigol tuag at y gymuned a'r amgylchedd. | ✓ | | | Ffurflen Gais / Cyflwyniad / Cyfweliad / Canolfan Asesu |
| **Darbwyllo a Dylanwadu**<br>Gwneud argraff bersonol gref ar eraill; Ennill dealltwriaeth glir ac ymrwymiad gan eraill drwy ddarbwyllo, argyhoeddi a chyd-drafod; Hybu syniadau ar eich rhan eich hun neu ar ran eraill; Defnyddio prosesau gwleidyddol yn effeithiol i ddylanwadu ar eraill ac i'w darbwyllo. | ✓ | | | Ffurflen Gais / Cyflwyniad / Cyfweliad / Canolfan Asesu |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cyflwyno a Chyfathrebu**<br>Siarad yn glir ac yn rhugl; Mynegi barn, gwybodaeth a phwyntiau allweddol dadl yn glir; gwneud cyflwyniadau a siarad yn gyhoeddus yn fedrus ac yn hyderus; Ymateb yn gyflym i anghenion cynulleidfa ac i'w hymatebion a'u hadborth; Cyfleu hygrededd. | ✓ | | | Ffurflen Gais / Cyflwyniad / Cyfweliad / Canolfan Asesu |
| **Llunio Strategaethau a Chysyniadau**<br>Gweithio'n strategol i wireddu amcanion trefniadol; Pennu a datblygu strategaethau; Clustnodi a threfnu'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni tasgau: Monitro perfformiad yn unol â dyddiadau cau a cherrig milltir. | ✓ | | | Ffurflen Gais / Cyflwyniad / Cyfweliad / Canolfan Asesu |
| **Addasu ac Ymateb i Newid**<br>Addasu i amgylchiadau newidiol; Derbyn syniadau newydd a mentrau ar gyfer newid; Addasu arddull ryngbersonol yn ôl yr hyn sy'n addas i wahanol bobl neu sefyllfaoedd; Dangos parch a sensitifrwydd tuag at wahaniaethau diwylliannol a chrefyddol; Ymdrin ag amwysedd gan wneud defnydd cadarnhaol o'r cyfleoedd y mae hynny'n ei gyflwyno. | ✓ | | | Ffurflen Gais / Cyflwyniad / Cyfweliad / Canolfan Asesu |
| **<u>SGILIAU PERSONOL</u>** | | | | |
| Rheoli materion sensitif a gwleidyddol yn hyderus gan weithio'n ddiplomataidd i gyflawni canlyniadau positif ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth. | ✓ | | | Ffurflen Gais / Cyflwyniad / Cyfweliad / Canolfan Asesu |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Y gallu i ennyn ymddiriedaeth, didwylledd, a chydraddoldeb drwy ryngweithio â phobl o amrywiol gefndiroedd cymdeithasol, diwylliannol, economaidd, ac addysgol. | ✓ | | | Ffurflen Gais / Cyflwyniad / Cyfweliad / Canolfan Asesu |
| Arddangos sgiliau rhyngbersonol gwych sy'n eich galluogi i feithrin cysylltiadau cadarnhaol gyda rhanddeiliaid/partneriaid perthnasol (gan gynnwys Undebau Llafur) | ✓ | | | Ffurflen Gais / Cyflwyniad / Cyfweliad / Canolfan Asesu |
| Meddu ar feddylfryd strategol tuag at lunio gwasanaethau sy'n rhoi sylw i flaenoriaethau corfforaethol ac sy'n integreiddio â gweithgareddau cyflenwol ar draws y Cyngor ac yn gweddu iddynt. | ✓ | | | Ffurflen Gais / Cyflwyniad / Cyfweliad / Canolfan Asesu |
| Y gallu i ddadansoddi gwybodaeth ariannol gan ddefnyddio'r wybodaeth yn effeithiol i sicrhau rheolaeth ac atebolrwydd effeithlon o ran y gyllideb. | ✓ | | | Ffurflen Gais / Cyflwyniad / Cyfweliad / Canolfan Asesu |

**Gwerthoedd Craidd / Cydraddoldeb ac Amrywiaeth**

Disgwylir i'r holl weithwyr gynnal gwerthoedd craidd yr Awdurdod a glynu wrth egwyddorion Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yr Awdurdod neu, os cânt eu cyflogi mewn ysgol, Bolisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yr ysgol, fel sy'n briodol i lefel atebolrwydd a chyfrifoldeb y swydd yn y sefydliad.

**Sgiliau Cyfathrebu:-**

**Noder:** I asesu'r lefel ofynnol o ran sgiliau iaith cyfeiriwch at y ddolen ganlynol: Asesiad a chanllawiau Sgiliau Iaith - Gweler Pwynt 5

***Nodwch lefel rhwng 1 a 5 ar gyfer sgiliau llafar a sgiliau ysgrifennu***

| Iaith | Sgiliau Llafar | Sgiliau Ysgrifennu |
|---|---|---|
| Cymraeg | 4 | 3 |
| Saesneg | 5 | 5 |

| Iaith Arall (nodwch) | | |
|---|---|---|

**AMGYLCHIADAU ARBENNIG:**

| Swydd dan Gyfyngiadau Gwleidyddol: (Sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddeiliad y swydd fod yn wleidyddol ddiduedd) | Ydy | ✓ | Nac ydy | |
|---|---|---|---|---|

*Os bernir bod gwiriad o gofnodion troseddol yn berthnasol i'r swydd hon, rhaid nodi'r math o wiriad a'r rheswm dros ei gynnal isod.*

*A fyddech cystal â llenwi pob un o'r tair adran drwy roi tic wrth y math o ddatgeliad sy'n ofynnol a'r math o weithlu gan nodi'r rheswm dros y gwirio.*

*Os bydd angen cymorth arnoch i gwblhau'r adran hon edrychwch ar y canllawiau sydd ar gael yma: http://brian/worklife/hr/SitePages/Operational%20HR%20Team.aspx neu gofynnwch i'ch Swyddog Adnoddau Dynol am gyngor.*

**Adran A – y math o ddatgeliad**

| | |
|---|---|
| DATGELIAD SAFONOL | |
| DATGELIAD MANWL | ✓ |
| DATGELIAD MANWL GAN WIRIO'R RHESTR WAHARDD | |

**Adran B – y math o weithlu**

| | |
|---|---|
| Y GWEITHLU PLANT | ✓ |
| Y GWEITHLU OEDOLION | |
| Y GWEITHLU PLANT AC OEDOLION | |
| GWEITHLU ARALL | |

**Y RHESWM:**

| **PARATOWYD GAN:** | Y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad) | **DYDDIAD PARATOI:** | Mehefin 2017 |
|---|---|---|---|

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru

YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales

# Cyfarwyddwr Adfywio a Pholisi

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn Awdurdod Lleol uchel ei berfformiad, bywiog a blaengar sy'n ceisio gwella'n barhaus ac mae wedi ymrwymo i gynnal ei enw rhagorol am gyflwyno gwasanaethau o'r radd flaenaf.
**Rydym bellach am recriwtio'r uwch-reolwr canlynol:**

## Cyfarwyddwr Adfywio a Pholisi

Hyd at £123,218

**Ai chi yw'r ymgeisydd cywir ar gyfer y swydd uchod?**
Disgwylir ichi fod yn hyderus, yn gredadwy ac yn ddylanwadol o'r cychwyn cyntaf. Dylech fod yn eich elfen yn arloesi i lwyddo, gan hyrwyddo a darparu newid cynyddol er mwyn cyflawni'r weledigaeth a'r disgwyliadau mawr sydd gennym ar gyfer ein Sir. Yn bwysicaf oll, byddwch yn gwybod beth yw gwasanaethau o'r radd flaenaf a sut i helpu eich staff i gyflawni'r safonau hyn o fewn amgylchedd sy'n gofyn llawer. Bydd yn ofynnol i chi weithio'n hyderus drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Gellir darparu cymorth wedi i chi gael eich penodi er mwyn cyrraedd y lefel ofynnol.

Os ydych yn credu mai chi yw'r ymgeisydd rhagorol yr ydym yn chwilio amdano, byddem yn falch iawn o glywed gennych! Rydym yn benodol yn croesawu ceisiadau gan ferched ac ymgeiswyr o'r lleiafrifoedd ethnig, gan nad yw'r grwpiau hyn yn cael eu cynrychioli'n ddigonol ar hyn o bryd ymhlith rheolwyr Cyngor Sir Caerfyrddin.

**I gael sgwrs anffurfiol am y swydd cysylltwch â Mark James, Prif Weithredwr, Cyngor Sir Caerfyrddin ar 01267 224110.**

**I gael pecyn ymgeisio ewch i: www.sirgar.llyw.cymru**

## Dyddiad Cau: ?? ???? 2017

Ar ôl llenwi'r ffurflen gais, dylid ei hanfon at: Paul Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad), Adeilad 14, Parc Dewi Sant, Heol Ffynnon Job, Caerfyrddin, SA31 3HB.

# Director of Regeneration & Policy

Carmarthenshire County Council is a high performing, vibrant and forward-thinking local authority that is constantly looking to improve, and is committed to maintaining its excellent reputation for delivering first class services.
**We are now looking to recruit to the following senior management position:**

## Director of Regeneration & Policy

Up to £123,218

**Are you the right Person for the above post?**
Confident, credible and influential from the outset, you will thrive on innovating for success, promoting and delivering progressive change to achieve our adopted vision and high expectations for our County. Crucially, you will know what first class services look like and how to help your staff achieve these standards within a demanding environment. You will be required to work confidently through the medium of Welsh and English. Support can be provided on appointment to reach the required level.

If you believe that you are the outstanding candidate that we are looking for, then we would really like to hear from you! We particularly welcome female applicants and those from an ethnic minority, as they are currently under-represented within Carmarthenshire County Council at management level.

**For an informal discussion about the roles, please contact Mark James, Chief Executive, Carmarthenshire County Council on 01267 224110.**

**For an application pack visit: www.carmarthenshire.gov.wales**

## Closing Date: ?? ???? 2017

Application forms should be returned to: Paul Thomas, Assistant Chief Executive, (People Management and Performance), Building 14, St David's Park, Job's Well Road, Carmarthen, SA31 3HB.

Rydym yn gyflogwr cyfle cyfartal ac yn croesawu ceisiadau wrth bawb. Gwneir pob penodiad ar sail teilyngdod.

We are an equal opportunities employer and we welcome applications from all. All appointments will be made on merit.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

hyderus o ran anabledd CYFLOGWR

disability confident EMPLOYER

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

# CYNGOR SIR

# 19EG GORFFENNAF 2017

## PENODI SWYDDOG PRIODOL

### ARGYMHELLION Y BWRDD GWEITHREDOL:

- **Bod yr Awdurdod yn penodi'r ymgynghorwyr canlynol o'r Awdurdod Iechyd yn Swyddogion Priodol at ddibenion deddfwriaeth Diogelu Iechyd:-**

| | |
|---|---|
| **MRS HEATHER LEWIS** | **YMGYNGHORYDD DIOGELU IECHYD** |
| **MR SION LINGARD** | **YMGYNGHORYDD DIOGELU IECHYD** |
| **DR CHRISTOPHER JOHNSON** | **YMGYNGHORYDD DIOGELU IECHYD** |
| **DR RHIANWEN STIFF** | **YMGYNGHORYDD RHEOLI CLEFYDAU HEINTUS** |
| **DR BRENDAN MASON** | **YMGYNGHORYDD RHEOLI CLEFYDAU HEINTUS** |
| **DR GWEN LOWE** | **YMGYNGHORYDD RHEOLI CLEFYDAU HEINTUS** |
| **DR GRAHAM BROWN** | **YMGYNGHORYDD RHEOLI CLEFYDAU HEINTUS** |
| **DR MEIRION EVANS** | **EPIDEMIOLEGYDD YMGYNGHOROL** |
| **DR CHRISTOPHER WILLIAMS** | **EPIDEMIOLEGYDD YMGYNGHOROL** |
| **DR GIRI SHAKAR** | **YMGYNGHORYDD PROFFESIYNOL ARWEINIOL AR GYFER DIOGELU IECHYD** |

- **bod y penodiadau'n dod i rym ar unwaith a'u bod yn parhau hyd nes:-**
  **- y bydd y Cyngor wedi diddymu'r penodiad neu,**
  **- y bydd y swyddog wedi cyflwyno hysbysiad ysgrifenedig o 3 mis i'r Cyngor ynghylch y bwriad i ymddiswyddo neu,**
  **- y bydd cyflogaeth y swyddog â'r awdurdod iechyd wedi dod i ben.**

### Y RHESYMAU:

Mae'n ofynnol i'r Cyngor benodi Swyddogion 'Priodol' o'r Awdurdod Iechyd (Iechyd Cyhoeddus Cymru) at ddibenion Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008) a Rheoliadau a wnaed yn unol â Deddf 1984.

| | |
|---|---|
| **Angen ymgynghori â'r Pwyllgor Craffu perthnasol :** | **NAC OES** |

| | |
|---|---|
| **Angen i'r Bwrdd Gweithredol wneud penderfyniad** | **OES – 26 Mehefin, 2017** |
| **Angen i'r Cyngor wneud penderfyniad** | **OES – 19 Gorffennaf, 2017** |

Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol sy'n Gyfrifol am y Portffolio:
Y Cyng. Phillip Huges (Deiliad y Portffolio Diogelu'r Cyhoedd)

| | | |
|---|---|---|
| **Y Gyfarwyddiaeth**<br>**Cymunedau** | **Swyddi:** | **Rhifau ffôn:** |
| **Enw Pennaeth y Gwasanaeth:**<br>**Robin Staines** | **Pennaeth Tai, Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Darparwr** | **Cyfeiriadau E-bost:**<br>01267 228960<br>RStaines@sirgar.gov.uk |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Sue Watts** | **Rheolwr Iechyd yr Amgylchedd a Thrwyddedu** | 01267 228929<br>sewatts@sirgar.gov.uk |



Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales

# EXECUTIVE SUMMARY
# COUNTY COUNCIL
# 19TH JULY 2017

## APPOINTMENT OF PROPER OFFICER

**Background**

Individuals taking care of their own health is not always enough to protect the health of the population in general.

Consequently, legislation has long provided that local authorities may take certain actions or make certain requirements, to protect overall public health.

This legislation is included in the Public Health (Control of Disease) Act 1984 ('the 1984 Act') which was updated by the Health and Social Care Act 2008. The amended 1984 Act came into force on 26 July 2010.

**Health Protection Regulations**

Under the amended 1984 Act, Welsh Ministers have powers to make regulations to enable public bodies to respond to public health threats.

Following a consultation exercise between November 2009 and January 2010, Welsh Ministers made three sets of regulations which came into force on 26 July 2010.

The regulations are:

- The Health Protection (Notification) (Wales) Regulations 2010: These Regulations include a revised list of diseases that doctors must report to the local authority. The regulations also include new provisions for cases that may have been caused by contamination with chemicals or radiation.

- The Health Protection (Part 2A Orders) (Wales) Regulations 2010: These Regulations provide details on the evidence required before a Justice of the Peace (JP) can make an order on a person to protect public health. The Regulations also set out safeguards for people affected by an order

- The Health Protection (Local Authority Powers) (Wales) Regulations 2010: These Regulations update local authorities powers and duties relating to their health protection role.

## Proper Officer

The Council is required to appoint 'Proper' Officers from the Health Authority (Public Health Wales) for the purposes of Public Health (Control of Disease) Act (as amended by the Health and Social Care Act 2008) and Regulations made under the 1984 Act.

In light of the fact that there have been recent appointments by Public Health Wales, the list of Proper Officers requires reviewing. The following is the current list of Consultants that requires appointments by the Council;

| | |
|---|---|
| **MRS HEATHER LEWIS** | **CONSULTANT IN HEALTH PROTECTION** |
| **MR SION LINGARD** | **CONSULTANT IN HEALTH PROTECTION** |
| **DR CHRISTOPHER JOHNSON** | **CONSULTANT IN HEALTH PROTECTION** |
| **DR RHIANWEN STIFF** | **CONSULTANT IN COMMUNICABLE DISEASE CONTROL** |
| **DR BRENDAN MASON** | **CONSULTANT IN COMMUNICABLE DISEASE CONTROL** |
| **DR GWEN LOWE** | **CONSULTANT IN COMMUNICABLE DISEASE CONTROL** |
| **DR GRAHAM BROWN** | **CONSULTANT IN COMMUNICABLE DISEASE CONTROL** |
| **DR MEIRION EVANS** | **CONSULTANT EPIDEMIOLOGIST** |
| **DR CHRISTOPHER WILLIAMS** | **CONSULTANT EPIDEMIOLOGIST** |
| **DR GIRI SHAKAR** | **PROFESSIONAL LEAD CONSULTANT FOR HEALTH PROTECTION** |

The appointments will take effect from *immediate effect* and will continue until;

- the Council revokes the appointment or
- the officer provides the Council with 3 months written notice of your resignation or
- the officer ceases employment with the health authority

These are honorary appointments and accordingly, no fees are payable by the Council in connection.

| | |
|---|---|
| **DETAILED REPORT ATTACHED ?** | **NO** |

# IMPLICATIONS

| **I confirm that other than those implications which have been agreed with the appropriate Directors / Heads of Service and are referred to in detail below, there are no other implications associated with this report :**<br>**Signed: Robin Staines Head of Housing, Public Protection and Provider Services** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Policy, Crime & Disorder and Equalities | Legal | Finance | ICT | Risk Management Issues | Staffing Implications | Physical Assets |
| **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** |

# CONSULTATIONS

| |
|---|
| **I confirm that the appropriate consultations have taken in place and the outcomes are as detailed below**<br>**Signed: Robin Staines Head of Housing, Public Protection and Provider Services** |
| **1. Scrutiny Committee N/A**<br>**2.Local Member(s) N/A**<br>**3.Community / Town Council N/A**<br>**4.Relevant Partners N/A**<br>**5.Staff Side Representatives and other Organisations N/A** |

**Section 100D Local Government Act, 1972 – Access to Information**
**List of Background Papers used in the preparation of this report:**

**THERE ARE NONE**

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

# Y BWRDD GWEITHREDOL

Dydd Mawrth, 2 Mai 2017

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd E. Dole (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
L.D. Evans, M. Gravell, D.M. Jenkins, G.O. Jones, L.M. Stephens, J. Tremlett, H.A.L. Evans a T.J. Jones

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
M. James, Prif Weithredwr
J. Morgan, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedau
C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
R. Mullen, Cyfarwyddwr yr Amgylchedd
G. Morgans, Cyfarwyddwr Addysg a Phlant Dros Dro
P.R. Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad)
W. Walters, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Adfywio a Pholisi)
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith
J. Fearn, Pennaeth Eiddo Corfforaethol
D. Hockenhull, Rheolwr y y Cyfryngau a Marchnata
N. Daniel, Penaeth Gwasanaeth TGCh
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Siambr, Neuadd y Sir - 10.00am - 10.35 am**

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd P.A Palmer.

**2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.**

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

**3. LLOFNODI FEL COFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y BWRDD GWEITHREDOL A GYNHALWYD AR Y**

**3.1. 27AIN MAWRTH 2017**

Tynnwyd sylw'r Bwrdd Gweithredol at gofnod 13 o'r cofnodion uchod ynghylch mabwysiadu fersiwn ddiwygiedig o'r Polisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol. Nododd, gan fod y newidiadau arfaethedig i'r polisi yn rhai bychain ac nad oeddent yn effeithio ar y polisi sylfaenol, fod y cofnodion wedi cael eu cymeradwyo gan yr Aelod o’r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau Dynol, Arbedion Effeithlonrwydd a Chydweithio, mewn cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Ebrill 2017.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn amodol ar yr uchod, lofnodi cofnodion cyfarfod y Bwrdd Gweithredol a gynhaliwyd ar 27 Mawrth 2017 gan eu bod yn gofnod cywir.**

**3.2. 10FED EBRILL 2017**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion cyfarfod y Bwrdd Gweithredol a gynhaliwyd ar 10 Ebrill 2017 gan eu bod yn gofnod cywir.**

**4. CWESTIYNAU Â RHYBYDD GAN AELODAU**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau â rhybudd wedi cael eu cyflwyno gan yr Aelodau.

**5. CWESTIYNAU A RHYBYDD GAN Y CYHOEDD**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau â rhybudd wedi dod i law gan y cyhoedd.

**6. ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB REFENIW Y CYNGOR**

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa gyllidebol fel yr oedd ar 28 Chwefror 2017, mewn perthynas â blwyddyn ariannol 2016/17.

Yn gyffredinol, roedd yr adroddiad yn rhagweld y byddai gorwariant o £126k ar gyllideb refeniw net yr Awdurdod ac y byddai gorwariant o £1,716k gan yr adrannau. Rhagwelid tanwariant o £436k yn y Cyfrif Refeniw Tai.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

6.1 derbyn yr adroddiad monitro ynghylch y gyllideb;

**6.2 bod y Prif Swyddogion a'r Penaethiaid Gwasanaeth yn adolygu eu sefyllfaoedd cyllidebol yn feirniadol ac yn cymryd camau priodol i ddarparu eu gwasanaethau yn unol â'r cyllidebau a ddyrannwyd iddynt.**

**7. DIWEDDARU RHAGLEN GYFALAF 2016-17**

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad oedd yn rhoi diweddariad ynghylch gwariant y Rhaglen Gyfalaf mewn perthynas â chyllideb 2016/17, fel yr oedd ar 28 Chwefror 2017. Ar sail y gyllideb o £67.178m a ragwelid, nodwyd bod amrywiad o £23.807m a oedd i'w briodoli i lithriad y prosiectau rhwng y blynyddoedd ariannol yn hytrach nag unrhyw newidiadau yn y gost.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad diweddaru ynghylch y rhaglen gyfalaf.**

**8. FERSIWN DIWYGIEDIG O'R POLISI GWEITHIO YSTWYTH**

Bu i'r Bwrdd Gweithredol ystyried adroddiad ar y newidiadau arfaethedig i Bolisi Gweithio Ystwyth y Cyngor gyda'r nod o wneud yn fawr o'r cyfleoedd ar gyfer gweithio ystwyth i ategu ei amcanion strategol drwy'r canlynol:

- Moderneiddio'r gwasanaethau a ddarperir:- defnyddio technoleg newydd i ddarparu gwasanaethau, darparu posibiliadau ar gyfer symleiddio prosesau a bod yn agosach at y cwsmeriaid;
- Recriwtio a Chadw:- Arferion gwaith gwahanol i helpu i recriwtio a chadw gweithwyr a werthfawrogir;
- Strategaeth Swyddfeydd:- Byddai gweithio ystwyth yn helpu i leihau'r anghenion o ran swyddfeydd ac i ddefnyddio adeiladau'n fwy effeithiol;
- Agenda gweithio hyblyg:- byddai gweithio ystwyth yn ategu'r agenda ehangach o ran cael cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith, gan roi bod i weithlu mwy cynhwysol;
- Amgylcheddol:- gall gweithio ystwyth olygu bod llai o deithiau car, bod llai o dagfeydd yn ystod yr oriau brig, a bod llai o lygredd yn cael ei greu.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo'r fersiwn ddiwygiedig o'r Polisi Gweithio Ystwyth.**


Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline www.carmarthenshire.gov.wales

**9. STRATEGAETH TRAWSNEWID DIGIDOL 2017 - 2020**

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad ynghylch mabwysiadu Strategaeth Trawsnewid Digidol 2017-20 sy'n disgrifio blaenoriaethau a dyheadau strategol y Cyngor o ran y maes digidol ac yn rhoi braslun o gynllun y Cyngor i wireddu ei weledigaeth ar gyfer Sir Gaerfyrddin Ddigidol. Mae hyn yng ngoleuni potensial technoleg ddigidol i drawsnewid y Sir a bywydau'r trigolion ac i greu arbedion hirdymor i'r Cyngor ar yr un pryd.

Rhoddwyd gwybod i'r Bwrdd fod y Pwyllgor Craffu - Polisi ac Adnoddau, yn ei gyfarfod ar 28 Ebrill 2017, wedi cymeradwyo'r Strategaeth yn amodol ar newidiadau, sef, cynnwys cyfeiriadau at aelodau etholedig a'r modd y byddai'r strategaeth o fudd mawr i'w gwaith a'u ffyrdd o ymwneud â'r gymuned.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo Strategaeth Trawsnewid Digidol 2017-2020 yn amodol ar gynnwys cyfeiriad at aelodau etholedig.**

**10. RHYBYDDION O GYNNIG A GYFEIRIWYD GAN Y CYNGOR AR Y 22AIN CHWEFROR 2017:-**

**10.1. RHYBUDD O GYNNIG A GYFLWYNWYD GAN Y CYNGHORYDD PETER HUGHES GRIFFITHS**

Cafodd y Bwrdd Gweithredol y Rhybudd o Gynnig canlynol a gyflwynwyd gan y Cynghorydd P. Hughes-Griffiths, a oedd wedi cael ei gyfeirio i'w ystyried gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar 22 Chwefror 2017:-

*"Mae gwir angen rhoi sylw arbennig ac uniongyrchol i'n hardaloedd gwledig yn Sir Gaerfyrddin. Felly, bod y Cyngor hwn yn sefydlu GWEITHGOR CEFN GWLAD a fyddai'n cynnwys aelodau o'r tri Grŵp sydd ar y Cyngor. Byddai'r Gweithgor (o ddilyn patrwm y Gweithgor Iaith) yn medru ymchwilio i sefyllfa ein hardaloedd gwledig yn Sir Gaerfyrddin trwy gasglu gwybodaeth, ymchwilio a gwahodd a derbyn tystiolaeth, cyn cyflwyno maes o law strategaethau, polisïau a chynllun gweithredu ger bron y Cyngor llawn."*

Gan fod yr etholiadau llywodraeth leol ar ddod, roedd y Bwrdd Gweithredol o'r farn y byddai'n synhwyrol i'r weinyddiaeth newydd roi ystyriaeth i sefydlu'r Gweithgor Cefn Gwlad a awgrymir.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ohirio trafod sefydlu Gweithgor Cefn Gwlad er mwyn i'r weinyddiaeth newydd ystyried y mater ar ôl yr etholiadau llywodraeth leol sydd ar ddod.**

**10.2. RHYBUDD O GYNNIG A GYFLWYNWYD GAN Y CYNGHORYDD ALUN LENNY**

Cafodd y Bwrdd Gweithredol y Rhybudd o Gynnig canlynol a gyflwynwyd gan y Cynghorydd A. Lenny, a oedd wedi cael ei gyfeirio i'w ystyried gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar 22 Chwefror 2017:-

*"Mae'r Cyngor hwn yn cydnabod yr emynydd William Williams, Pantycelyn, Sir Gaerfyrddin, fel un o'r Cymry mwyaf a fu erioed ac yn ymrwymo i gynnal achlysur arbennig i ddathlu trichanmlwyddiant ei eni er mwyn cydnabod ei gyfraniad anferth*

*i emynyddiaeth ar raddfa ryngwladol a'i effaith ar fywyd ein cenedl, yn ogystal â hyrwyddo gwybodaeth am ei fywyd a'i waith mewn pob cyhoeddusrwydd addas a phosibl gan y cyngor yn ystod gweddill y flwyddyn."*

Nododd y Bwrdd Gweithredol fod amryw o ddigwyddiadau wedi'u cynnal eisoes drwy'r sir i ddathlu trichanmlwyddiant geni William Williams ar 11 Chwefror 1717, a bod y Cyngor wedi cael cais am gymorth grant ar gyfer digwyddiad a gynhelir yn Llanymddyfri yn y dyfodol agos i ddathlu ei fywyd, ei waith a'i ddylanwad ar hanes Cymru. Nodwyd hefyd nad oedd y Cyngor yn ymwneud yn uniongyrchol â'r dathliadau ond mai'r bwriad oedd y byddai pob cymuned leol yn nodi'r trichanmlwyddiant mewn ffyrdd oedd yn gweddu orau i'w gofynion unigol, ac y byddai'r Cyngor yn rhoi ystyriaeth i unrhyw geisiadau ychwanegol a ddaw i law am gymorth ariannol ar gyfer digwyddiadau a gynhelir yn ardal Llanymddyfri.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r mater.**

**11. HARBWR PORTH TYWYN - PRYDLES RNLI**

Bu i'r Bwrdd Gweithredol ystyried adroddiad ynghylch yr amodau arfaethedig y byddai'r Awdurdod yn cytuno arnynt gyda Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub ar gyfer rhoi prydles o 125 mlynedd, am rent hedyn pupur o £1.00 y flwyddyn, ar ddarn o dir sy'n eiddo i'r Cyngor yn Harbwr Porth Tywyn at ddibenion adeiladu gorsaf bad achub newydd. Nodwyd, o dan amodau'r cytundeb, y byddai'r orsaf bad achub bresennol yn cael ei hildio i'r Awdurdod er mwyn ei defnyddio fel swyddfa'r harbwr.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo'r brydles arfaethedig ar dir yn Harbwr Porth Tywyn i Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub ar sail yr amodau a nodir yn yr adroddiad.**

**13. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i newidiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitemau canlynol yn cael eu hystyried, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

**14. Y DATBLYGIADAU O RAN HARBWR PORTH TYWYN**

**Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng Nghofnod 13 uchod, ystyried y mater hwn yn breifat gan orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod, gan y byddai'r drafodaeth yn datgelu gwybodaeth eithriedig ynghylch materion ariannol neu faterion busnes unrhyw unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno).**

Bu i'r Bwrdd Gweithredol ystyried adroddiad manwl ynghylch cynigion ar gyfer rhedeg Harbwr Porth Tywyn yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo'r adroddiad a bod y Cyngor yn rhan o gytundeb cyfyngol, na fydd yn para'n hwy na chwe mis, i drafod opsiwn posibl o ran partneriaeth reoli ar gyfer Harbwr Porth Tywyn.**

**15. CYD-FENTER CROSS HANDS - CYTUNDEB ATODOL ARFAETHEDIG**

**Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng Nghofnod 13 uchod, ystyried y mater hwn yn breifat gan orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod, gan y byddai'r drafodaeth yn datgelu gwybodaeth eithriedig ynghylch materion ariannol neu faterion busnes unrhyw unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno).**

Bu i'r Bwrdd Gweithredol ystyried adroddiad manwl ynghylch cynigion bod yr Awdurdod yn cychwyn cytundeb atodol gyda Llywodraeth Cymru mewn perthynas â Chyd-fenter Cross Hands.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL bod yr Awdurdod yn llunio cytundeb atodol i Gytundeb Cyd-fenter Cross Hands rhwng y Cyngor a Llywodraeth Cymru, dyddiedig 13 Medi 2005, fel y nodwyd yn Atodiad 1 o'r Adroddiad hwn.**

**16. GORLLEWIN CAERFYRDDIN**

**Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng Nghofnod 13 uchod, ystyried y mater hwn yn breifat gan orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod, gan y byddai'r drafodaeth yn datgelu gwybodaeth eithriedig ynghylch materion ariannol neu faterion busnes unrhyw unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno).**

Bu i'r Bwrdd Gweithredol ystyried adroddiad manwl ynghylch trafodaethau eiddo mewn perthynas â Datblygiad Gorllewin Caerfyrddin.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo'r trafodaethau arfaethedig, y manylwyd arnynt yn yr adroddiad.**

| | |
|---|---|
| ________________________ | __________________ |
| **CADEIRYDD** | **DYDDIAD** |

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

# EXECUTIVE BOARD

Monday, 26 June 2017

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd L.M. Stephens (Cadeirydd);

**Y Cynghorwyr:**
H.A.L. Evans, L.D. Evans, D.M. Jenkins, P.M. Hughes, P. Hughes-Griffiths, G. Davies a C.A. Campbell;

**Yn bresennol fel sylwedyddion:-**
Cynghorydd D.M. Cundy, S. Davies, J.S. Edmunds, R. James a J. Prosser;

**Roedd y Swyddogion canlynol yn bresennol yn y cyfarfod:**
M. James, Prif Weithredwr;
C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol;
J. Morgan, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedau;
G. Morgans, Cyfarwyddwr Addysg a Phlant Dros Dro;
R. Mullen, Cyfarwyddwr yr Amgylchedd;
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith;
W. Walters, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Adfywio a Pholisi);
J. Fearn, Pennaeth Eiddo Corfforaethol;
S.E. Watts, Rheolwr Iechyd yr Amgylchedd a Thrwyddedu;
D. Hockenhull, Rheolwr y y Cyfryngau a Marchnata;
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

**Siambre, Neuadd y Sir, Caerfyrddin - 10.00 am - 10.45 am**

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**
Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr E. Dole a J. Tremlett.

**2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL**
Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

**3. COFNODION - 2 MAI, 2017**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion cyfarfod y Bwrdd Gweithredol a gynhaliwyd ar 2 Mai 2017 gan eu bod yn gywir.**

**4. CWESTIYNAU Â RHYBUDD GAN YR AELODAU**
Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau â rhybudd wedi cael eu cyflwyno gan yr Aelodau.

**5. CWESTIYNAU Â RHYBUDD GAN Y CYHOEDD**
Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau â rhybudd wedi dod i law gan y cyhoedd.

**6. POLISI GORFODI CORFFORAETHOL**
Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad ar Safonau Gwasanaethau a Pholisi Gorfodi'r Awdurdod a goladwyd o ganlyniad i'r ymgynghori corfforaethol o fewn yr Adrannau perthnasol ac aethpwyd ati i gael cymeradwyaeth i ymgynghori'n eang drwy gyfrwng y wefan gorfforaethol. Nodwyd bod angen i'r adran ar gyfer

'Penodiadau' sydd wedi'i chynnwys yn y 'Safonau Gwasanaeth' gael ei diwygio i adlewyrchu'r ffaith fod y Canolfannau Gwasanaethau Cwsmeriaid yn gweithredu system apwyntiadau yn dilyn dirwyn y cynllun 'peilot' i ben.

Gofynnodd y Cynghorydd D. Cundy ynghylch y datblygiadau tai newydd lle rhoddwyd contractau i brynwyr tai, gallai'r contractau hyn fod yn destun "Gorfodi Amodol" gan y Cyngor. Cyfeiriodd yn benodol at achosion lle'r oedd gerddi perchnogion tai wedi dioddef llifogydd. Ymatebodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Ddiogelu'r Cyhoedd y byddai'n rhaid i'r cyngor ddibynnu ar bwerau statudol perthnasol a bod angen i bob darpar brynwr fod yn ofalus ynghylch hyn.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**6.1 bod y testun yn yr adran 'Penodiadau' o 'SAFONAU GWASANAETHAU CYNGOR SIR CAERFYRDDIN' yn cael ei newid i ddarllen fel a ganlyn:**

> ***'Mae pob un o'n Canolfannau Gwasanaethau Cwsmeriaid yn gweithredu system apwyntiadau. Y nod yw gwella profiad y cwsmer a gwella'r modd y darperir gwasanaethau. Nawr gallwch drefnu apwyntiad yn unrhyw un o'n Canolfannau Gwasanaethau Cwsmeriaid yn Rhydaman, Caerfyrddin a Llanelli ar ddyddiad ac amser sy'n gyfleus i chi.***
> ***Os ydych yn dymuno trefnu apwyntiad neu drafod unrhyw fater sy'n ymwneud â'r Cyngor yna ffoniwch ein Canolfan Gyswllt ar 01267 234567. Mae modd i chi drefnu a rheoli eich apwyntiadau ar-lein*;**

**6.2 cychwyn ar y broses ymgynghori ynghylch y Polisi Gorfodi Corfforaethol gyda rhanddeiliaid priodol am gyfnod o 6 wythnos;**

**6.3 bod y sylwadau a ddaeth i law yn ystod y broses ymgynghori yn cael eu hystyried gyda'r bwriad o fabwysiadu'r Polisi Gorfodi Corfforaethol.**

## 7. PENODI SWYDDOG PRIODOL

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad ynghylch penodi Swyddogion Priodol o'r Awdurdod Iechyd (Iechyd Cyhoeddus Cymru) at ddibenion Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008) a Rheoliadau a wnaed yn unol â Deddf 1984.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ARGYMELL I'R CYNGOR**

**7.1 bod yr Awdurdod yn penodi'r ymgynghorwyr canlynol o'r Awdurdod Iechyd yn Swyddogion Priodol at ddibenion deddfwriaeth Diogelu Iechyd:-**

| | |
|---|---|
| **Mrs Heather Lewis** | **Ymgynghorydd Diogelu Iechyd;** |
| **Mr Sion Lingard** | **Ymgynghorydd Diogelu Iechyd;** |
| **Dr. Christopher Johnson** | **Ymgynghorydd Diogelu Iechyd** |
| **Dr. Rhianwen Stiff** | **Ymgynghorydd Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy;** |
| **Dr. Brendan Mason** | **Ymgynghorydd Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy;** |
| **Dr. Gwen Lowe** | **Ymgynghorydd Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy;** |
| **Dr. Graham Brown** | **Ymgynghorydd Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy;** |
| **Dr. Meirion Evans** | **Epidemiolegydd Ymgynghorol;** |
| **Dr.Christopher Williams** | **Epidemiolegydd ymgynghorol ;** |

**Dr.Giri Shakar** **Ymgynghorydd Proffesiynol Arweiniol ar gyfer Diogelu Iechyd.**

**7.2 bod y penodiadau'n dod i rym ar unwaith a'u bod yn parhau hyd nes:-**
**- y bydd y Cyngor wedi diddymu'r penodiad neu,**
- y bydd y swyddog wedi cyflwyno hysbysiad ysgrifenedig o 3 mis i'r Cyngor ynghylch y bwriad i ymddiswyddo neu,
**- y bydd cyflogaeth y swyddog â'r awdurdod iechyd wedi dod i ben.**

**8. ADRODDIAD MONITRO YNGHYLCH CYLLIDEB REFENIW Y CYNGOR**

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried yr adroddiad monitro ynghylch y gyllideb refeniw a roddai'r wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa ariannol diwedd blwyddyn y flwyddyn ariannol 2016/17.

Yr oedd y ffigurau alldro terfynol yn dangos bod gorwariant o £1,093k ar lefel adrannol am y flwyddyn. Roedd hyn wedi'i wrthbwyso gan danwariant o £5,286k ar gostau cyfalaf ac roedd yr alldro a oedd yn deillio o hynny yn golygu bod yr Awdurdod yn rhagweld trosglwyddo £523k i'w gronfeydd cyffredinol. Roedd y Cyfrif Refeniw Tai wedi dychwelyd tanwariant o £2k.

Wrth ymateb i sylw, derbyniodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant, bod y costau newydd o ran Ymddeoliad Cynnar Gwirfoddol a dileu swyddi mewn ysgolion yn uchel ond dywedodd fod y mater yn cael ei drafod ar sail sir gyfan.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL bod yr adroddiad ynghylch monitro'r gyllideb yn cael ei dderbyn.**

**9. DIWEDDARIAD YNGHYLCH RHAGLEN GYFALAF 2016-17**

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad diweddaru a oedd yn manylu ar y sefyllfa gyllidebol derfynol mewn perthynas â rhaglen gyfalaf 2016/17, fel yr oedd ar 31 Mawrth, 2017. Roedd y gwariant net gwirioneddol o £42,071k o'i gymharu â chyllideb net weithredol o £69,921k yn rhoi amrywiad o £27,850k. Byddai hyn yn cael ei gynnwys yn y blynyddoedd sydd i ddod wrth i gynlluniau gael eu hailbroffilio, oherwydd roedd angen y gyllideb er mwyn sicrhau bod cynlluniau'n cael eu cwblhau.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad diweddaru ynghylch y rhaglen gyfalaf.**

**10. DIWEDDARIAD YNGHYLCH TROSGLWYDDO ASEDAU - PARCIAU, LLEOEDD CHWARAE A LLECYNNAU AMWYNDER**

Yn dilyn y penderfyniad a wnaed gan y Bwrdd Gweithredol yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr, 2014 (gweler cofnod 11) o ran trosglwyddo asedau sef parciau, lleoedd chwarae a mannau amwynder, bu'r Bwrdd yn ystyried adroddiad a roddai'r diweddaraf ynghylch y cynnydd a wnaed mewn perthynas â throsglwyddo asedau cymunedol gan gynnwys manylion trosglwyddiadau sydd wedi digwydd hyd yma, a'r ffordd ymlaen posibl.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd D Cundy, dywedodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau nad oedd Parc Howard, Llanelli, bellach ar y rhestr trosglwyddo asedau.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**10.1 nodi statws presennol yr amrywiol drosglwyddiadau i Gynghorau Cymuned a sefydliadau chwaraeon;**

**10.2 bod asedau nad ydynt wedi derbyn Mynegiant o Ddiddordeb [EOI] yn destun ymgynghoriad gydag amrywiol randdeiliaid ar ddyfodol yr asedau perthnasol;**

**10.3 er mwyn hyrwyddo'r broses drosglwyddo yn y flwyddyn olaf sy'n arwain at y dyddiad cau, sef 31 Mawrth 2018, bydd pob parti â diddordeb (asedau yn y categorïau 'B' a 'C' yn yr adroddiad) yn cael grant o ddwywaith y gost cynnal a chadw flynyddol, heb ystyried y rhesymau dros unrhyw oedi hyd yn hyn, ac i adlewyrchu'r consesiwn a wneir ac i annog cwblhau'r trosglwyddiadau sy'n weddill yn gynnar, bydd y Grant Cynnal a Chadw yn gostwng 1/24 y mis o 1 Ebrill 2017, hyd at y dyddiad trosglwyddo.**

## 11. PANELAU YMGYNGHOROL Y BWRDD GWEITHREDOL

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad a oedd yn cynnwys manylion am y panelau ymgynghorol a sefydlwyd gan y weinyddiaeth flaenorol i adrodd ar faterion amrywiol a gwahoddwyd y Bwrdd i adolygu diben, swyddogaethau ac aelodaeth y panelau ac i benderfynu ar ba rai yr oedd am ei gadw ac unrhyw baneli newydd yr oedd yn dymuno eu sefydlu. Gofynnwyd i'r Bwrdd hefyd a oedd am ychwanegu'r Gweithgor Cefn Gwlad, cofnod 10.1 cyfarfod y Bwrdd Gweithredol a gynhaliwyd ar 2 Mai 2017, at ei restr o Banelau Ymgynghorol ac i ystyried aelodaeth ohono.

Dywedodd y Cadeirydd er mwyn osgoi unrhyw oedi wrth benodi aelodau i fod yn rhan o'r panelau ymgynghorol y gofynnwyd am enwebiadau gan Arweinwyr y grwpiau gwleidyddol, er roedd yn parhau i ddisgwyl am rai ohonynt.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd D. Cundy ynghylch a fyddai'n bosibl sefydlu 'Gweithgor Trefol' i gyd-fynd â'r 'Gweithgor Cefn Gwlad' arfaethedig a'r cysylltiadau â'r Panel Ymgynghorol ynghylch Trechu Tlodi, dywedodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Gymunedau a Materion Gwledig fod yr olaf yn cynnwys Sir Gaerfyrddin yn ei chyfanrwydd a bod grwpiau gorchwyl eisoes wedi'i sefydlu i ymchwilio i anghenion economaidd a chymdeithasol tair prif ardal drefol sef Llanelli, Rhydaman a Chaerfyrddin. Byddai pob un o'r grwpiau hyn yn bwydo i'r Panel Ymgynghorol ynghylch Trechu Tlodi.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**11.1 bod y panelau ymgynghorol a sefydlwyd gan y weinyddiaeth flaenorol yn cael eu cadw a bod y Gweithgor Cefn Gwlad yn cael ei sefydlu yn cynnwys yr aelodaeth fel y nodir yn yr adroddiad a gylchredwyd;**

**11.2 bod arweinwyr y grwpiau yn cyflwyno eu henwebiadau ar gyfer aelodaeth Panelau Ymgynghorol y Bwrdd Gweithredol i'r Prif Weithredwr gyda'r nod o'u cymeradwyo yn ystod y cyfarfod nesaf.**



Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales

**12. CYNRYCHIOLAETH AR GYRFF ALLANOL**

Cyflwynwyd i'r Bwrdd Gweithredol, o ganlyniad i'r etholiadau llywodraeth leol ddiwethaf, restr o Gyrff Allanol er mwyn penderfynu a ddylai'r Cyngor benodi /parhau i benodi ar y cyrff hynny. Cyflawnwyd adolygiad cychwynnol o'r rhestr o gyrff allanol i ganfod statws cyfredol y sefydliadau presennol ac i gyflwyno rhestr gyfredol er mwyn penodi.

Dywedodd y Cadeirydd, yn yr un modd â'r Panelau Ymgynghorol yng nghofnod 11 uchod, er mwyn osgoi unrhyw oedi wrth benodi aelodau i'r Cyrff Allanol gofynnwyd am enwebiadau gan Arweinwyr y grwpiau gwleidyddol er roedd yn parhau i ddisgwyl am rai ohonynt.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**12.1 gofyn i Arweinwyr y Grwpiau gyflwyno eu henwebiadau ar gyfer cynrychiolaeth ar Gyrff Allanol i'r Prif Weithredwr gyda golwg ar gymeradwyo'r rhain yn y cyfarfod nesaf;**

**12.2 ei fod yn ofynnol i'r aelodau a benodir i wasanaethu ar gyrff allanol yn adrodd yn ôl ar gyfarfodydd y cyrff hynny a sefydlu dull priodol i hwyluso hyn.**

___________________________ _________________________

**Y CADEIRYDD** **Y DYDDIAD**

**1.1.**

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol